

**Cael mynediad at wasanaethau gofal
cymdeithasol a gofal iechyd yng Nghymru
Prosiect Cyngor Myfyrwyr
MencapWISE**

Darparwyd yr arweinydd hwn gan fyfyrwyr o Ysgol y Gyfraith
a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd, gyda goruchwyliaeth gan
Jason Tucker (Darllenydd).

Rhif elusen gofrestrdig 222377 (Cymru a Lloegr)

CAEL MYNEDIAD AT WASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL IECHYD YNG NGHYMURU

Cynnwys

I.	Cyflwyniad.....	1
II.	Rhan 1 – Gwasanaethau gofal cymdeithasol: dyletswyddau a rhwymedigaethau’r awdurdodau lleol.....	3
1.1	Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Dyletswyddau Allweddol.....	3
1.2	Y ddyletswydd i asesu.....	6
1.3	Cael asesiad.....	9
1.4	Pa mor hir y dylai asesiad ei gymryd?.....	11
1.5	Y broses o asesu.....	12
1.6	Offeryn Asesu a Chymhwysra Cenedlaethol.....	13
1.7	Pa anghenion y mae’n rhaid i awdurdod lleol eu diwallu?.....	17
1.8	Pa wasanaethau y mae’n rhaid i awdurdod lleol eu darparu.....	25
1.9	A all yr awdurdod lleol godi tâl am wasanaethau gofal a chefnogaeth?.....	27
1.10	Pwy sy’n gorfod talu am wasanaethau gofal a chefnogaeth.....	27
1.11	Y broses asesu cyllid.....	29
1.12	A all yr awdurdodau lleol dynnu gwasanaeth yn ei ôl?.....	37
III.	Rhan 2 – Gwasanaethau gofal iechyd: dyletswyddau a rhwymedigaethau’r byrddau iechyd lleol.....	38
2.1	Pa reidrwydd sydd ar y byrddau iechyd lleol i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd?.....	38
2.2	Sut mae cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd?.....	39
2.3	Gofal iechyd parhaus y GIG.....	40

2.4	Gofal nyrsio a ariennir gan y GIG	43
2.5	Galluedd meddyliol a materion iechyd meddwl.....	44
2.6	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r byrddau iechyd.....	48
2.7	Crynodeb.....	49
IV	Rhan 3 – Herio Penderfyniadau.....	51
3.1	Dulliau Gweithredu Adolygiadau.....	51
3.2	Dulliau Gweithredu Cwynion.....	52
3.3	Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.....	53
3.4	Adolygiad Barnwrol.....	54
3.5	Gwasanaethau eiriolaeth.....	54
3.6	Uned ‘pro bono’ Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd.....	55
V.	Adnoddau Ychwanegol.....	56

CYFLWYNIAD

Gall y broses o gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol fod yn gymhleth. Ymdrinnir â gofal iechyd a gofal cymdeithasol dan wahanol ddeddfwriaethau ac nid yw'n anghyffredin i awdurdodau lleol a byrddau iechyd anghytuno ynghylch pa fudiad sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau.

Diben yr arweinlyfr hwn yw cynorthwyo pobl sy'n gweithredu fel eiriolwyr anabledd dysgu (pa un a ydyn nhw'n rhieni, yn ofalwyr, yn wirfoddolwyr neu'n weithwyr proffesiynol) trwy esbonio hawliau unigolion i gael gwasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r arweinlyfr yn esbonio dyletswyddau awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau a sut i gael mynediad at y gwasanaethau hynny, yn ogystal â darparu gwybodaeth ynghylch codi tâl am wasanaethau a herio penderfyniadau. Rhennir yr arweinlyfr yn dair rhan:

Rhan 1 – Gwasanaethau gofal cymdeithasol: dyletswyddau a rhwymedigaethau'r awdurdodau lleol

Mae'r Rhan hon yn esbonio'r dyletswyddau a'r rhwymedigaethau sydd gan awdurdodau lleol i asesu unigolion a darparu gofal a chefnogaeth. Efallai na fydd awdurdodau lleol yn gorfod diwallu holl/unrhyw un o anghenion unigolyn ac mae Rhan 1 yn egluro sut mae awdurdod lleol yn penderfynu pa un a yw unigolyn â'r hawl i gael gwasanaethau ac mae'n darparu arolwg o'r gwasanaethau allweddol sydd fel arfer ar gael gan awdurdodau lleol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i adegau pan fydd awdurdodau lleol yn gallu codi tâl am y gwasanaethau a ddarperir a sut mae cyfrifo unrhyw gostau. Darperir gwybodaeth hefyd ynghylch y dyletswyddau sydd gan awdurdodau lleol i ymgymryd ag asesu gofalwyr a darparu cefnogaeth i ofalwyr.

Rhan 2 – Gwasanaethau gofal iechyd: dyletswyddau a rhwymedigaethau byrddau iechyd lleol

Mae'r Rhan hon yn esbonio'r dyletswyddau a'r rhwymedigaethau sydd gan fyrddau iechyd lleol i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, gan gynnwys gwasanaethau yn y gymuned. Darperir gwybodaeth hefyd ynghylch asesu galluedd meddyliol a phryd y gall pobl gael eu hamddifadu o'u rhyddid.

Rhan 3 – Herio Penderfyniadau

Mae'r Rhan hon yn esbonio sut y gall penderfyniadau ynghylch gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd gael eu herio.

Mae'r arweinyfr yn cynnwys hyperddolen at adnoddau allweddol ar-lein. Pryd bynnag y bydd cyfeiriad yn cael ei danlinellu o fewn y testun, mae'n dangos mai hyperddolen ydyw, fydd yn mynd â chi at yr adnodd allanol perthnasol. Yn ogystal, mae'r arweinyfr yn cynnwys rhan **Adnoddau Ychwanegol**, sy'n cynnwys manylion mudiadau sy'n darparu gwybodaeth yn ymwneud â darpariaeth gofal iechyd a gofal cymdeithasol.

Y deddfwriaethau allweddol sy'n ymwneud â darpariaeth gofal iechyd a gofal cymdeithasol yw:

- [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) a
- [Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Cymru\) 2006](#)

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi cyfres o [Godau Ymarfer](#) yn ymwneud â gofal cymdeithasol. Pan fydd y Codau'n cyfeirio at **ofynion**, mae'n rhaid i'r rhain gael eu dilyn gan awdurdodau lleol. Pan fydd y Codau'n cyfeirio at **ganllawiau**, mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol barchu'r canllaw perthnasol. Y Codau allweddol yw:

Rhan 2 o'r Côt Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol)	Rhan 3 o'r Côt Ymarfer (Asesu Anghenion Unigolion)
Rhan 4 a 5 o'r Côt Ymarfer (Codi Tâl ac Aseiad Ariannol)	Rhan 4 o'r Côt Ymarfer (Diwallu Anghenion)

Cyfeirir at deddfwriaethau perthnasol a'r Codau Ymarfer trwy gydol yr arweinyfr hwn.

RHAN 1 – GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL: DYLETSWYDDAU A RHWYMEDIGAETHAU'R AWDURDODAU LLEOL

Ymgwymerir â llywodraeth leol gan yr awdurdodau lleol ac mae gan awdurdod lleol gyfrifoldebau tuag at oedolion a phlant sy'n byw o fewn ei ardal. Bydd y Rhan hon yn canolbwyntio ar y dyletswyddau a'r rhwymedigaethau sydd gan awdurdodau lleol i asesu unigolion a darparu gofal a chefnogaeth, y cyfeirir ato fel arfer fel gwasanaethau 'gofal cymdeithasol'. Nid oes gan awdurdodau lleol ddyletswyddau i drin ac ystyriwr cael mynediad at ddarpariaeth gofal iechyd yn **Rhan 2 – Gwasanaethau gofal iechyd: dyletswyddau a rhwymedigaethau byrddau iechyd lleol.**

Mae'r wybodaeth yn y Rhan hon o'r arweinlyfr yn cynnwys:

- 1.1 Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Dyletswyddau Allweddol**
- 1.2 Y ddyletswydd i asesu**
- 1.3 Cael asesiad**
- 1.4 Pa mor hir y dylai asesiad ei gymryd?**
- 1.5 Y broses o asesu**
- 1.6 Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol**
- 1.7 Pa anghenion sydd yn rhaid i awdurdod lleol eu diwallu?**
- 1.8 Pa wasanaethau sydd yn rhaid i awdurdod lleol eu darparu?**
- 1.9 All yr awdurdod lleol godi tâl am wasanaethau gofal a chefnogaeth?**
- 1.10 Pwy sydd raid talu am wasanaethau gofal a chefnogaeth?**
- 1.11 Y broses asesu ariannol**
- 1.12 All yr awdurdod lleol dynnu gwasanaethau yn ôl?**

1.1 Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Dyletswyddau Allweddol

Daeth Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (DGCLI 2014) i rym ar 6^{ed} Ebrill 2016. Yng Nghymru yn unig y mae'r Ddeddf yn berthnasol a golyga hyn bod cyfraith gofal cymdeithasol yn wahanol yng Nghymru i'r gyfraith sy'n berthnasol yn Lloegr. Mae'r Ddeddf yn rhoi llesiant yn ganolbwynt i'r system gofal cymdeithasol. Dan **rh5 DGCLI 2014**, mae'n rhaid i awdurdodau lleol hyrwyddo **llesiant**:

- pobl sydd ag angen gofal a chefnogaeth a
- gofawyr sydd ag angen cefnogaeth.

Weithiau cyfeirir at y ddyletswydd dan rh5 fel *dyletswydd hollgyffredinol*, gan ei bod yn adlewyrchu'r rhwymedigaeth gyffredinol sy'n gorfodi awdurdodau lleol i hyrwyddo llesiant. Tra bo'r ddeddf yn Lloegr yn canolbwyntio'n bennaf ar oedolion mewn angen, mae'r ddyletswydd gyffredinol dan DGCLI 2014 yn berthnasol i unigolion o unrhyw oed.

	<p><u>Gwybodaeth ac Adnoddau Allweddol:</u> Beth yw llesiant?</p>
	<p>Diffinnir llesiant yn rh2 o DGCLI 2014 ac mae'n golygu unrhyw un o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ❖ llesiant iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol; ❖ amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod; ❖ addysg, hyfforddiant ac adloniant; ❖ perthynas bersonol a theuluol; ❖ cyfraniad a wneir i gymdeithas; ❖ sicrhau hawliau ac iawnderau; ❖ llesiant economaidd a chymdeithasol; a ❖ phriodoldeb trigfan. <p>Ar gyfer <i>oedolyn</i>, mae llesiant hefyd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ❖ rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd; a ❖ cymryd rhan mewn gwaith. <p>Ar gyfer <i>plentyn</i>, mae llesiant hefyd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ❖ datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol; a ❖ 'lles' yn ôl fel y cyfeirir ato yn y Ddeddf Plant 1989. <p>Gellir dod o hyd i wybodaeth ynglŷn â'r hyn mae'r cysyniadau hyn yn ei olygu mewn gwirionedd yn <u>Rhan 2 o'r Côd Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol)</u> (paragraff 31). Er enghraifft, bydd trigfan yn briodol os yw'n caniatáu i unigolyn ddweud "<i>Rydw i'n byw mewn cartref sy'n fy nghefnogi orau i gyflawni fy llesiant.</i>"</p>

Yn ogystal â'r ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo llesiant, mae **rh6 DGCLI 2014** yn gosod nifer o *ddyletswyddau hollgyffredinol eraill*. Dan rh6, mae'n rhaid i awdurdodau lleol:

- edrych beth yw teimladau, dymuniadau a safbwyntiau'r unigolyn a'u parchu (cyhyd ag y mae'n rhesymol ymarferol);
- ystyried y pwysigrwydd o hybu a pharchu urddas yr unigolyn;
- ystyried nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys iaith); ac
- ystyried pwysigrwydd darparu cefnogaeth addas i alluogi'r unigolyn i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno i'r graddau sy'n briodol i'r amgylchiadau, yn enwedig pan yw gallu'r unigolyn i gyfathrebu yn gyfyngedig am ryw reswm.

Ar gyfer *oedolyn*, mae'n rhaid i awdurdodau lleol hefyd:

- ddechrau gyda'r rhagdybiaeth mai'r oedolyn sydd yn y lle gorau i farnu ei lesiant;
- a
- hyrwyddo annibyniaeth yr oedolyn ble mae'n bosibl.

Ar gyfer *plentyn*, mae'n rhaid i awdurdodau lleol hefyd:

- ystyried pwysigrwydd hyrwyddo magwraeth y plentyn gan deulu'r plentyn, cyhyd â'i fod yn gyson â lles y plentyn; ac
- os yw'r plentyn dan 16 oed, cael gwybod beth yw safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r bobl sydd â chyfrifoldeb rhieni am y plentyn a pharchu'r rhain, cyhyd â bod gwneud hynny yn: (i) gyson â hyrwyddo lles y plentyn ac (ii) eithaf ymarferol.

Gyda llawer o'r dyletswyddau hyn mae gofyn i'r awdurdodau lleol '*ystyried*' elfen arbennig. Mae [Rhan 2 o'r Côd Ymarfer \(Swyddogaethau Cyffredinol\)](#) (paragraff 59) yn trafod beth mae '*ystyried*' yn ei feddwl a noda bod yn rhaid i awdurdodau lleol fedru dangos bod ganddynt weithrediadau ar waith sy'n caniatáu iddynt ddangos eu bod wedi cael ac wedi ystyried yr wybodaeth berthnasol. Er enghraifft, mae'n rhaid bod hyfforddiant priodol ar gael i sicrhau bod staff sy'n ymgymryd ag asesiadau yn medru cyfathrebu'n briodol â rhywun sydd ag anabledd er mwyn cael gwybod beth yw safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r person.

Mae **Rhan 7 DGCLI 2014** yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau lleol, pan fyddant yn ymarfer unrhyw un o'r dyletswyddau hollgyffredinol, ystyried:

- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn; a
- Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Yn ogystal, dywed Côd Rhan 2 (paragraff 56) bod "*llesiant yn cynnwys agweddau allweddol o fyw'n annibynnol, yn ôl fel y mynegir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, yn enwedig Erthygl 19 o'r Confensiwn*".

Os ydych chi'n cefnogi person hŷn neu blentyn neu rywun sydd ag anabledd, yna mae'n bwysig ystyried pa un a yw'r hawliau sydd ganddynt dan y confensiynau hyn wedi cael eu hystyried yn iawn gan yr awdurdod lleol. Er enghraifft, mae un o'r hawliau a fynegir yn y Confensiwn ar Hawliau Pobl Anabl yn dweud bod "*pobl sydd ag anableddau yn cael cyfle i ddewis y lle maent yn byw a ble a chyda phwy maent yn*

byw ar lefel gyfartal â phobl eraill ac nid oes raid iddynt fyw mewn trefniad byw penodol". Mae gan ran yr **Adnoddau Ychwanegol** gysylltiadau â ffynonellau o wybodaeth ynghylch pob un o'r confensiynau.

Os yw awdurdod lleol yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'i ddyletswyddau dan rh5 a rh6 DGCLI 2014 neu'n methu ag ystyried yn briodol hawliau unigolyn dan un o'r confensiynau, yna bydd yn bosibl gwneud cwyn i'r awdurdod lleol (gweler [Y Dull o fynd ati i Gwyno](#)).

1.2 Y ddyletswydd i asesu

Gan fod yn rhaid i awdurdodau lleol hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth a gofalwyr sydd angen cefnogaeth, golygu hyn bod tair gwahanol ddyletswydd asesu yn bodoli:

- **Oedolion** (unrhyw berson 18 oed neu dros hynny – rh3(2) DGCLI 2014).
- **Plant** (unrhyw berson dan 18 oed – rh3(3) DGCLI 2014).
- **Gofalwyr** (unrhyw berson sy'n darparu neu sy'n bwriadu darparu gofal ar gyfer oedolyn neu blentyn anabl ar wahân i ofalwr cyflogedig neu weithiwr gwirfoddol – rh3(4) a (7) DGCLI 2014).

Gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl o'r ffordd y mae'n rhaid rhoi'r ddyletswydd i asesu ar waith yn [Rhan 3 o'r Côd Ymarfer \(Asesu anghenion unigolion\)](#).

Mae'r ddyletswydd i asesu **oedolion** yn cael ei mynegi yn **rh19 DGCLI 2014** ble mae'n mynnu bod yr awdurdod lleol yn asesu pa un a oes gan yr oedolyn anghenion gofal a chefnogaeth os:

- yw'r person yn byw (neu fel arfer yn preswyllo) yn ardal yr awdurdod lleol; ac
- mae'n ymddangos, efallai, bod gan y person anghenion gofal a chefnogaeth.

Mae'r ddyletswydd i asesu yn berthnasol ni waeth beth fo modd ariannol y person nac unrhyw safbwynt sydd gan yr awdurdod lleol o anghenion gofal a chefnogaeth y person. Golyga hyn na all awdurdod lleol wrthod gwneud asesiad ar sail ei bod yn ymddangos na fydd y person yn gymwys i gael gwasanaethau neu ei bod yn ymddangos y gall y person dalu am wasanaethau. Yn yr un modd, ni all yr awdurdod lleol wrthod cynnal asesiad ar sail bod anghenion y person yn cael eu diwallu gan ofal a ddarperir gan deulu neu ofalwyr eraill.

Mae'r ddyletswydd i asesu **plant** yn cael ei mynegi yn **rh21 DGCLI 2014** ble mae'n mynnu bod yr awdurdod lleol yn asesu pa un a oes angen gofal a chefnogaeth ar y plentyn yn ychwanegol at y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir gan deulu'r plentyn neu yn eu lle os:

- yw'r plentyn yn byw (neu fel arfer yn preswyllo) yn ardal yr awdurdod lleol; ac
- mae'n ymddangos, efallai, bod gan y plentyn anghenion gofal a chefnogaeth sy'n ychwanegol at y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir gan deulu'r plentyn neu yn eu lle.

Fel gydag oedolion, mae'r ddyletswydd i asesu plant yn berthnasol ni waeth beth yw modd ariannol y plentyn (neu unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn) nac unrhyw safbwynt sydd gan yr awdurdod lleol am anghenion y plentyn am ofal a chefnogaeth. (Os yw'r awdurdod lleol yn gofalu am y plentyn, mae gwahanol

ddyletswyddau yn bodoli ac ystyrir y rhain yn yr arweinyfr **Amddiffyn Plant** sydd ar wahân i'r arweinyfr hwn.)

	<u>Gwybodaeth ac Adnoddau Allweddol</u> <u>Plant anabl</u>
Os yw plentyn yn anabl, mae rh21(7) DGCLI 2014 yn mynegi “ <i>y rhagdybir y bydd arno angen gofal a chefnogaeth yn ychwanegol at y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir gan deulu'r plentyn neu yn eu lle</i> ”.	
Dan rh3(5) DGCLI 2014 , mae person yn anabl os oes gan y person anabledd ar gyfer Deddf Cydraddoldeb 2010. Golyga hyn yr ystyrir bod gan y person anabledd os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol, sydd ag effaith niweidiol sylweddol hirdymor ar allu'r person i wneud gweithgareddau cyffredin o ddydd i ddydd.	

Mae'r ddyletswydd i asesu **gofalwyr** yn cael ei mynegi yn **rh24 DGCLI 2014** ble mae'n mynnu bod yr awdurdod lleol yn asesu pa un a oes gan ofalwr anghenion cefnogi (neu mae'n debygol y bydd eu hangen yn y dyfodol) os:

- yw'r gofalwr yn darparu, neu'n bwriadu darparu, gofal i oedolyn neu blentyn anabl sy'n byw (neu fel arfer yn preswyllo) yn ardal yr awdurdod lleol; ac
- mae'n ymddangos, efallai, bod gan y gofalwr anghenion cefnogi.

Eto, mae'r ddyletswydd i asesu yn berthnasol ni waeth beth fo modd ariannol y gofalwr nac unrhyw safbwynt sydd gan yr awdurdod lleol o anghenion y gofalwr am gefnogaeth. Noda Côd Rhan 3 (paragraff 15), os yw'r gofalwr dan 18 oed, efallai ei fod hefyd yn blentyn ag anghenion gofal a chefnogaeth ac efallai bod ganddo hawl i asesiad ar wahân dan rh21 DGCLI 2014.

Fel arfer, nid yw'n ofynnol ar yr awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau os nad yw'r person yn byw neu fel arfer yn preswyllo yn ardal yr awdurdod lleol. Cyn cyflwyno'r DGCLI 2014, y prawf oedd pa un a oedd rhywun yn 'preswyllo fel arfer' yn ardal yr awdurdod lleol. Ystyriwyd ystyr preswylfa arferol gan Dŷ'r Arglwyddi yn ***R v Barnet London Borough Council ex parte Shah [1983] 1 All ER 226*** a phenderfynwyd bod preswylfa arferol yn cael ei sefydlu os:

- oes ffordd o fyw rheolaidd, arferol mewn lle arbennig;
- yw'n para am amser hir neu amser byr;
- yw'n wirfoddol a chyda diben sefydlog.

Mae'n debyg yr eir ati yn yr un ffordd i benderfynu canlyniad unrhyw ddatl ynghylch pa un a yw person yn byw neu fel arfer yn preswyllo yn ardal yr awdurdod lleol dan DGCLI 2014.

1.3 Cael asesiad

Asesu yw'r fynedfa at wasanaethau gofal cymdeithasol. Mae Rhan 17 DGCLI 2014 yn gofyn ar i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth cymorth, gwybodaeth chyngor i alluogi pobl i gael mynediad at ofal a chefnogaeth. Felly, dylai gwasanaethau fod ar gael yn eich ardal leol i'ch cefnogi i gael asesiad o anghenion gofal a chefnogaeth. (Eglurir swyddogaeth y gwasanaeth cymorth, gwybodaeth a chyngor yn fanwl yn yr

arweinlyfr [Eiriolaeth a Mynediad at Gymorth, Gwybodaeth a Chyngor](#), sydd ar wahân i'r arweinlyfr hwn.)

Ar y llaw arall, gallwch wneud cais am asesiad, un ai ar gyfer rhywun rydych chi'n ei gefnogi neu ar eich cyfer chi eich hun os ydych chi'n ofalwr, trwy gysylltu ag adran gofal cymdeithasol i oedolion neu wasanaethau plant yr awdurdod lleol. Fe ddylech fedru cael gafael ar y manylion cyswllt perthnasol o wefan yr awdurdod lleol.

Gwybodaeth ac Adnoddau Allweddol:
Sut i wneud cais am asesiad.

Os oes arnoch chi angen gwneud cais am wasanaethau gofal cymdeithasol, efallai y byddwch chi'n gweld yr adnoddau canlynol yn ddefnyddiol:

- ❖ Mae Llywodraeth San Steffan yn darparu peiriant chwilio ar-lein (Find your local council) sy'n caniatáu i chi weld pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ardal arbennig trwy gofnodi côd post.
- ❖ Mae Cerebra yn cynhyrchu cyfres o Lythyrau Patrymlun fel cefnogaeth i bobl sy'n cysylltu ag awdurdodau lleol i wneud cais am amrediad o ddarpariaeth gwasanaeth. Mae'r patrymluniau'n cynnwys llythyrau'n ymwneud â darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr.

Gan fod y dyletswyddau asesu mewn perthynas ag oedolion, plant a gofalwyr i gyd yn orfodol, golyga hyn bod yn rhaid i awdurdodau lleol wneud asesiad os yw'n ymddangos i'r awdurdod lleol y gall fod gan y person anghenion gofal a/neu gefnogaeth. Fel arfer ni all awdurdod lleol gael ei ryddhau o orfodaeth i wneud asesiad dim ond os yw asesiad wedi'i wrthod mewn ffordd ddilys.

Pan fydd y person sy'n cael ei asesu yn oedolyn, mae ganddo'r hawl i wrthod cymryd rhan mewn asesiad. Os oes diffyg gallu gan yr oedolyn, yna gall gwrthod mewn ffordd ddilys gael ei wneud gan berson sydd wedi'i awdurdodi dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. (Am ragor o wybodaeth ynglŷn â materion galluedd, gweler [Galluedd meddyliol a phroblemau iechyd meddwl](#).) Pan fydd gwrthodiad dilys wedi'i wneud, nid oes raid i'r awdurdod lleol wneud asesiad, os nad yw'r awdurdod lleol yn amau bod yr oedolyn yn cael profiad o gamdriniaeth neu esgeulustod, neu mewn perygl o hynny. Pan fydd diffyg galluedd gan yr oedolyn, ac nid oes person awdurdodedig i weithredu ar ei ran, dylai'r awdurdod lleol wneud asesiad, hyn yn oed os yw'r oedolyn yn gwrthod, ym mhob achos os bydd yr awdurdod lleol yn credu mai'r asesiad fydd yn gwneud y mwyaf o les i'r oedolyn.

Pan fydd y person sy'n cael ei asesu yn blentyn, mae ganddo'r hawl i wrthod cymryd rhan mewn asesiad os yw'n 16 neu'n 17 oed. Os yw'r plentyn sy'n 16 neu'n 17 oed â diffyg galluedd, yna gall gwrthodiad dilys gael ei roi gan berson awdurdodedig dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 neu, os nad oes person awdurdodedig, gan rywun sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn (cyhyd â bod gan y person hwnnw alluedd). Pan fydd y person sy'n cael ei asesu yn blentyn dan 16 oed, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol asesu pa un a oes ganddo ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad cytbwys ynghylch pa un a ddylai wrthod asesiad ai peidio. Os ystyrir bod gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol, gall wrthod yr asesiad. Os nad oes gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol, yna bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn. Mewn sefyllfaoedd ble mae'n ymddangos bod gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol, ac mae'n dymuno i'r asesiad gael ei wneud, ond bod person sydd â chyfrifoldeb rhiant yn gwrthod cytuno i'r asesiad, yna dylai'r awdurdod lleol fynd ymlaen â'r asesiad. Mewn unrhyw achos ble mae'r person sy'n cael ei asesu yn blentyn, os bydd gwrthodiad dilys yn cael ei wneud, nid oes raid i'r awdurdod lleol wneud asesiad os nad yw'r gwrthodiad un ai wedi'i wneud gan rywun sydd â

chyfrifoldeb rhiant ac mae'r awdurdod lleol yn credu y byddai peidio â chael yr asesiad ddim yn gwneud y mwyaf o les i'r plentyn neu mae'r awdurdod lleol yn amau bod y plentyn yn cael profiad o gamdriniaeth neu esgeulustod, neu mewn perygl o hynny.

Pan fydd y person sy'n cael ei asesu yn ofalwr 16 oed neu dros hynny, mae ganddo'r hawl i wrthod cymryd rhan mewn asesiad. Pan fydd y gofalwr dan 16 oed, yna mae'n rhaid i'r awdurdod lleol asesu pa un a oes ganddo ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad cytbwys ynghylch gwrthod asesiad ai peidio. Os nad oes gan ofalwr ifanc ddealltwriaeth ddigonol, yna bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn.

Ym mhob achos, os yw'r person sy'n gwrthod yr asesiad yn newid ei feddwl, yna mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud asesiad.

1.4 Pa mor hir y dylai asesiad ei gymryd?

Gan fod gan bobl wahanol anghenion, mae'r ddeddfwriaeth yn cydnabod y bydd angen gwahanol fathau o asesiadau, gyda rhai pobl ag angen asesiad gan ymarferydd sengl ac eraill ag angen asesiadau mwy cymhleth gyda mewnbwn arbenigol. Felly, nid yw'r ddeddfwriaeth fel arfer yn gosod terfynau amser cyflawni'r asesiadau, er y noda'r [Côd Ymarfer Rhan 3 \(Asesu Anghenion Unigolion\)](#) (paragraff 36) y "*dylid rhoi gwybod i'r unigolyn, a phawb cysylltiedig, am hynnt yr asesiad a phryd y mae disgwyl i'r broses asesu ddod i ben*". Yr unig eithriad yw bod Côd Rhan 3 (paragraff 78) yn datgan bod yn rhaid i'r asesiad gael ei gwblhau mewn dim mwy na 42 dydd o adeg yr atgyfeiriad os yw'r atgyfeiriad yn ymwneud â phlentyn.

Cyn cyflwyno'r DGCLI 2014, roedd yn rhaid cynnal asesiadau angen o fewn 'amser rhesymol'. Awgrymai arweiniad cynharach gan yr Ombwdsman y dylai'r rhan fwyaf o asesiadau gael eu cwblhau o fewn 4-6 wythnos ac y dylai asesiadau rhwydd gael eu cwblhau yn fwy cyflym. Mae'n debygol y bydd yr Ombwdsman yn parhau â'r ffordd hon o fynd ati dan y DGCLI 2014. Os dywed yr awdurdod lleol na all gwblhau'r asesiad o fewn cyfnod o amser rhesymol (e.e. oherwydd bod ganddo restr aros) yna mae hi'n bosibl gwneud cwyn ar y sail nad yw'r awdurdod lleol yn darparu adnoddau digonol i gydymffurfio â'i ddyletswydd i ddarparu asesiadau o fewn amser rhesymol. Yn ogystal, noda'r Côd Rhan 3 (paragraff 32) na "*ddylai'r angen i gynnal asesiad mwy arbenigol atal neu ohirio gwasanaethau priodol rhag cael eu darparu*". Yn yr un modd, noda paragraff 52 y gellir gofyn am asesiad trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg ac na "*ddylai gofyn am gael asesiad cyfrwng Cymraeg ohirio'r broses*".

1.5 Y broses asesu

Mae [Côd Ymarfer Rhan 3 \(Asesu Anghenion Unigolion\)](#) yn gosod yr egwyddorion y dylai awdurdodau lleol eu rhoi ar waith wrth ymgymryd ag asesiad o anghenion gofal a chefnogaeth.

Noda Côd Rhan 3 (paragraff 23) y dylai'r unigolyn sy'n cael ei asesu "*deimlo ei fod yn bartner cyfartal yn ei berthynas â gweithwyr proffesiynol*". Mae gan yr unigolyn sy'n cael ei asesu'r hawl i gael ei gefnogi trwy'r broses a gall y gefnogaeth hon fod yn anffurfiol (e.e. gan aelod o deulu) neu'n ffurfiol (e.e. trwy eiriolwr proffesiynol annibynnol). (Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch yr hawl i gael cefnogaeth eiriolwr yn yr arweinlyfr [Eiriolaeth a Mynediad at Gymorth, Gwybodaeth a Chyngor](#), sydd ar wahân i'r arweinlyfr hwn.)

Os yw'r person sy'n cael ei asesu angen mewnbwn arbenigol yna mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod yr asesiad yn cynnwys y medrau, yr wybodaeth neu'r wybodaeth arbenigol sydd eu hangen (Côd Rhan 3 (paragraff 30)).

Mae'n rhaid cael *ymarferydd arweiniol dynodedig* i gydlynu'r broses asesu (Côd Rhan 3 (paragraff 41)). Ar gyfer asesiadau rhwydd, mae'r ymarferwr arweiniol yn debygol o gwblhau'r asesiad ar ei ben ei hun ond pan fydd gan yr unigolyn anghenion mwy cymhleth, bydd yr ymarferwr arweiniol yn gyfrifol am gydlynu'r broses asesu a chasglu mewnbwn gan weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda'r unigolyn. Noda Côd Rhan 3 (paragraff 43) y bydd yr ymarferwr arweiniol fel arfer yn weithiwr cymdeithasol/ymarferwr gofal cymwysedig ac, os nad yw'r unigolyn sy'n cael ei asesu yn gwrthwynebu, bydd yr ymarferwr arweiniol fel arfer yn cynnwys y bobl ganlynol yn yr asesiad:

- unrhyw un y mae'r person sy'n cael ei asesu (neu riant yn achos plentyn) yn gofyn am ei gynnwys yn yr asesiad;
- gweithwyr proffesiynol eraill sydd wedi ymgymryd ag asesiad cysylltiedig neu sydd angen ymgymryd ag asesiad cysylltiedig;
- gweithwyr proffesiynol eraill sydd â gwybodaeth arbenigol sy'n gysylltiedig ag anghenion y person sy'n cael ei asesu;
- yn achos oedolyn sydd â diffyg gallu, unrhyw berson sy'n awdurdodedig i wneud penderfyniadau dan Ddeddf Galluedd Meddwl 2005;
- unrhyw berson arall, gan gynnwys gofalywyr, y mae'r awdurdod lleol yn ystyried bod rhan ddigonol ganddo yn y trefniadau gofal a chefnogaeth ar gyfer y person.

Pan fydd yr unigolyn a'i ofalwr yn cael eu hasesu, mae'n bosibl ymgymryd ag asesiad ar y cyd pe buasai'n fuddiol gwneud hynny ac mae pawb sy'n cael eu hasesu yn cytuno (Côd Rhan 3, paragraff 37)

1.6 Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol

Noda'r [Côd Ymarfer Rhan 3 \(Asesu Anghenion Unigolion\)](#) (paragraff 54) bod yn rhaid ymgymryd ag unrhyw asesiad o anghenion gofal a chefnogaeth yn unol â'r Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol, ble mae'r canlynol yn ofynnol:

- cwblhau'r set ddata graidd ofynnol genedlaethol;
- dadansoddiad o'r pum elfen allweddol o asesu;
- rhestr o weithrediadau i'w gwneud fydd yn galluogi'r person i gyflawni ei ganlyniadau personol a sicrhau bod ei anghenion gofal a chefnogaeth yn cael eu diwallu; a
- datganiad yn egluro sut y bydd gweithred awgrymedig yn galluogi'r person i gyflawni ei ganlyniadau personol neu fel arall ddiwallu'r anghenion a enwid.

Gwybodaeth ac Adnoddau Allweddol Beth yw'r set ddata graidd ofynnol genedlaethol?	
Mae'r Côt Rhan 3 (paragraff 59) yn egluro'r wybodaeth sy'n ofynnol i gwblhau'r set ddata graidd ofynnol genedlaethol:	
Rhif GIG	Iaith/dull Cyfathrebu sy'n well
Teitl	ganddo/Gofynion hygrychedd
Cyfenw	Enw(au) Gofalwr(wyr)/Pobl sydd â
Enw(au) blaen	chyfrifoldeb rhieni
Enw ffafriedig	Perthynas
Cyfeiriad a Chôd post	Manylion Cyswllt y Gofalwr(wyr)/
Dyddiad Geni	Pobl sydd â chyfrifoldeb rhieni
Ffôn	A yw'r plentyn hwn ar y Gofrestr
Cyfeiriad e-bost	Amddiffyn Plant?
Rhyw	Manylion cyswllt Cydgysylltydd
Enw a chyfeiriad y meddyg teulu	Asesu Arweiniol
Enw a chyfeiriad yr ysgol	Manylion cyswllt Cydgysylltydd
Galwedigaeth	Gofal Arweiniol
Pa asesiadau eraill yr ymgwymerwyd â hwy gan asiantaethau eraill?	Gwybodaeth a gasglwyd gan (enw)
	Teitl
	Mudiad
	Dyddiad

Yn ogystal â chael yr wybodaeth sydd ei hangen fel rhan o'r set ddata graidd, mae'r broses asesu angen dadansoddiad cynhwysfawr o bum elfen allweddol o'r asesiad yr ymgwymerir ag ef. Dywedir beth yw'r pum elfen allweddol yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015 gyda rheoliad 4 yn nodi bod yn rhaid i'r awdurdod lleol:

- asesu ac ystyried amgylchiadau'r person;
- ystyried eu canlyniadau personol;
- asesu ac ystyried unrhyw rwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny;
- asesu ac ystyried unrhyw beryglon i'r person neu bobl eraill os nad yw'r canlyniadau hynny'n cael eu cyflawni; ac
- asesu ac ystyried galluoedd a chryfderau'r person.

Mae Côt Rhan 3 (Atodiad 1) yn cynnwys arweiniad yn ymwneud ag asesu'r pum elfen allweddol. Mae'n rhaid i'r ymarferwr arweiniol sicrhau bod y broses asesu yn canolbwyntio ar gael dealltwriaeth o ganlyniadau llesiant personol yr unigolyn. Dylai'r asesiad hefyd enwi unrhyw rwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny, gan ystyried amgylchiadau, galluoedd a chryfderau'r person ac unrhyw beryglon i'r unigolyn (neu unrhyw berson arall) os nad yw'r canlyniadau llesiant yn cael eu cyflawni. Ar ôl enwi'r rhwystrau sy'n bodoli, dylai'r asesiad ddweud beth yw'r gweithrediadau sydd eu hangen i alluogi'r unigolyn i oresgyn y rhwystrau hynny a sut i roi'r gweithrediadau sydd eu hangen ar waith.

Mae'r Côt Rhan 3 hefyd yn dweud beth yw'r ystyriaethau neilltuol sy'n berthnasol pan yw'r asesiad yn asesiad o oedolyn a phan yw'r asesiad yn asesiad o blentyn. Pan yw'r person sy'n cael ei asesu yn oedolyn, mae'r asesiad yn:

- dechrau o'r rhagdybiaeth mai'r oedolyn sydd yn y lle gorau i farnu ynghylch eu llesiant eu hunain (*paragraffau 17 a 66*); a
- dylai hyrwyddo annibyniaeth yr oedolyn ble mae'n bosibl (*paragraff 67*).

Pan fydd y person sy'n cael ei asesu yn blentyn, dylai'r asesiad:

- wneud darpariaeth i'r plentyn gael ei weld (*paragraffau 25 a 74*);
- hyrwyddo magwraeth y plentyn gan deulu'r plentyn, cyhyd â bod hynny'n gyson â lles y plentyn (*paragraff 72*);
- canfod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, os yw'r plentyn dan 16 oed (*paragraff 75*);
- sicrhau bod y plentyn yn cael ei ddiogelu a bod ei les yn cael ei hyrwyddo (*paragraff 76*); a
- cael ei gyflwyno yn unol â'r 'Egwyddorion sydd wrth wraidd asesu plant' (*paragraff 77 ac Atodiad 2*).

Noda'r Côd Rhan 3 (*paragraff 80*) hefyd bod yn rhaid i unrhyw asesiad enwi pob un o anghenion y person, gan gynnwys anghenion y mae gofalwr yn cwrdd â hwy. Mae'n rhaid i unrhyw asesiad hefyd sefydlu pa un a oes unrhyw achos i amau bod y person yn cael profiad, neu mewn perygl o gael profiad, o gamdriniaeth neu esgeulustod. Os yw'r asesiad yn canfod mater diogelu, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymchwilio a gwneud unrhyw beth sydd ei angen i amddiffyn y person.

Pan fydd y person sy'n cael ei asesu yn ofalwr, mae rh24 DGCLl 2014 yn gofyn bod yr awdurdod lleol yn:

- cynnwys y gofalwr a, ble mae'n ymarferol, y person sy'n cael gofal yn yr asesiad;
- asesu i ba raddau y mae'r gofalwr yn gallu, ac yn parhau i allu, darparu gofal;
- asesu i ba raddau y mae'r gofalwr yn fodlon, ac yn parhau i fod yn fodlon, darparu gofal;
- pan fydd y gofalwr yn oedolyn, canfod beth yw'r canlyniadau y mae'r gofalwr yn dymuno eu cyflawni;
- pan fydd y gofalwr yn blentyn, canfod beth yw'r canlyniadau y mae'r gofalwr yn dymuno eu cyflawni (o ystyried ei oed a'i ddealltwriaeth), a'r canlyniadau y mae unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb am y gofalwr yn dymuno eu cyflawni mewn perthynas â'r gofalwr;
- asesu i ba raddau y gallai cefnogaeth, gwasanaethau ataliol, gwybodaeth, cymorth a chyngor neu faterion eraill gyfrannu tuag at gyflawni'r canlyniadau a enwyd.
- ystyried:
 - a yw'r gofalwr yn gweithio neu'n dymuno gwneud hynny;
 - a yw'r gofalwr yn cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu unrhyw weithgaredd hamdden neu'n dymuno gwneud hynny; ac
 - os yw'r gofalwr yn blentyn, anghenion datblygiadol y plentyn a pha un a yw'n briodol i'r plentyn ddarparu gofal (neu unrhyw ofal) yng ngoleuni'r anghenion datblygiadol hynny.

Pan fydd yr asesiad wedi'i gwblhau, mae'n rhaid cofnodi canlyniadau'r asesiad, gan gynnwys y gweithrediadau a nodir a sut y bydd y gweithrediadau hynny yn galluogi'r

person i gyrraedd eu canlyniadau personol. Mae'n ofynnol yn ôl Côt Rhan 3 (paragraff 116) bod copi o'r asesiad yn cael ei gynnig i'r person y mae'n ymwneud ag ef ac mae'n rhaid ei ddarparu mewn diwyg 'hawdd ei deall' neu ddiwyg arall sy'n addas i anghenion y person.

Mae'n bosibl y bydd anghenion y person yn newid dros amser. Noda Côt Rhan 3 (paragraff 94) os bydd newid wedi bod yn y canlyniadau personol a nodwyd neu newid sylweddol yn amgylchiadau'r person, mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol wneud adolygiad o'r asesiad. Yn ogystal, noda paragraff 98 y gellir gofyn am ail asesiad ar unrhyw adeg.

1.7 Pa anghenion y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu diwallu?

Noda'r [Côt Ymarfer Rhan 3 \(Asesu Anghenion Unigolion\)](#) (paragraff 118) y gall asesiad o anghenion gofal a chefnogaeth, yr ymgymerir ag ef yn unol â'r Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol, gyrraedd nifer o gasgliadau:

- nid oes anghenion i'w diwallu;
- mae angen asesiad mwy cynhwysfawr, a all gynnwys asesiadau mwy arbenigol;
- gellir diwallu anghenion trwy ddarparu cymorth, gwybodaeth neu gyngor;
- gellir diwallu anghenion trwy ddarparu gwasanaethau rhwystrol;
- gellir diwallu anghenion, yn llwyr neu yn rhannol, gan yr unigolyn ei hun (gyda neu heb gymorth pobl eraill);
- gall materion eraill gyfrannu tuag at gyflawni canlyniadau personol neu fel arall ddiwallu'r anghenion;
- dim ond trwy gynllun gofal a chefnogaeth neu gynllun cefnogaeth y gellir diwallu anghenion.

Dylai'r asesiad nodi holl anghenion y person ac, yn aml, cyfeirir at yr anghenion a nodir fel **anghenion amlwg**. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau lleol dan ddyletswydd i ddiwallu pob angen sydd ar berson. Mae'r Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015 yn gosod meini prawf cymhwystra sy'n berthnasol yng Nghymru a dim ond os bydd y meini prawf hynny'n cael eu diwallu y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu. Felly, dim ond y gwasanaethau sy'n diwallu **anghenion cymwys** person sydd raid i awdurdod lleol eu darparu. Os yw'r person ag anghenion amlwg sydd ddim yn diwallu meini prawf cymhwystra, yna nid oes raid i'r awdurdodau lleol ddarparu cefnogaeth mewn perthynas â'r anghenion hynny. Golyga hyn fod gan rai pobl **anghenion heb eu diwallu** (h.y. anghenion nad oes gan yr awdurdod lleol unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu gwasanaethau ar eu cyfer).

Noda'r [Côt Ymarfer Rhan 4 \(Diwallu Anghenion\)](#) (paragraff 27) bod y 'Rheoliadau Cymhwystra' yn mynnu bod yr awdurdodau lleol yn defnyddio pedair 'amod' wrth benderfynu a yw anghenion unigolyn yn cwrdd â'r meini prawf cymhwystra sydd eu hangen i gael gwasanaethau gofal a chefnogaeth:

- **Amod 1** – mae'n rhaid i'r angen godi o un o'r amgylchiadau a nodir yn y rheoliadau.
- **Amod 2** – mae'n rhaid i'r angen ymwneud ag un o'r canlyniadau a nodir yn y rheoliadau.

- **Amod 3** – mae'n rhaid i'r person fod yn analluog i gwrdd â'r angen, un ai ar ei ben ei hun neu â gofal a chefnogaeth pobl eraill sy'n gallu eu darparu ac yn fodlon gwneud hynny neu â chymorth gwasanaethau'r gymuned.
- **Amod 4** – mae'n rhaid i'r person fod yn annhebygol o gyflawni o leiaf un o'u canlyniadau personol os nad yw'r awdurdod lleol yn darparu un ai gofal a chefnogaeth neu daliadau uniongyrchol.

Mae'r ffordd y mae'r amodau'n cael eu gweithredu yn wahanol gan ddibynnu pa un a yw'r person sy'n cael ei asesu yn oedolyn, yn blentyn neu'n ofalwr ac mae'r Tabl a ganlyn yn crynhoi'r ffordd o fynd ati y mae gofyn i'r awdurdodau lleol ei chymryd:

Tabl (1): Y person sy'n cael ei asesu (Oedolyn)	
Amod 1	<p>Mae'n rhaid i'r angen godi o un o'r amgylchiadau a nodir yn y Rheoliadau.</p> <p>Dan Reoliad 3 yr amgylchiadau perthnasol yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • afiechyd corfforol neu feddyliol; • oed; • anabledd; • dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau; neu • amgylchiadau eraill tebyg
Amod 2	<p>Mae'n rhaid i'r angen ymwneud ag un o'r canlyniadau a nodir yn y Rheoliadau.</p> <p>Dan Reoliad 3 y canlyniadau perthnasol yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gallu i gyflawni hunanofal neu ofalu am y cartref; • gallu i gyfathrebu; • amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod; • cymryd rhan mewn gwaith, addysg, dysgu neu weithgareddau hamdden; • cynnal neu ddatblygu teulu neu berthynas bersonol arwyddocaol arall; • datblygu a chynnal perthynas gymdeithasol a chymryd rhan yn y gymuned; neu • cyflawni cyfrifoldebau gofalu am blentyn.
	<p><i>Dan Reoliad 1 golyga "hunanofal" orchwylion y mae person yn eu gwneud fel rhan o fywyd beunyddiol, gan gynnwys:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>bwyta ac yfed;</i> • <i>cynnal hylendid personol;</i> • <i>codi a gwisgo;</i> • <i>symud o gwmpas y tŷ;</i> • <i>paratoi prydau bwyd;</i> • <i>cadw'r cartref yn lân, diogel a glanwaith.</i>
Amod 3	<p>Mae'n fath o angen nad yw'r oedolyn ychwaith yn gallu ei ddiwallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ar ei ben ei hun; • gyda gofal a chefnogaeth pobl eraill sy'n fodlon darparu'r gofal a'r gefnogaeth honno; neu • gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned y mae gan yr oedolyn fynediad iddynt.
	<p><i>Dan Reoliad 6 ystyrir nad yw person yn gallu diwallu angen os yw gwneud hynny, ar ei ben ei hun neu gyda chymorth pobl eraill, un ai yn:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>achosi poen, pryder neu ofid i'r person hwnnw;</i> • <i>peryglu neu'n debygol o beryglu iechyd a diogelwch y person hwnnw neu berson arall; neu</i> • <i>cymryd gryn dipyn yn hirach i'r person hwnnw nag a ddisgwylir fel arfer.</i>
Amod 4	<p>Mae'r oedolyn yn annhebygol o gyflawni un neu fwy o'r canlyniadau personol o'u anghenion gofal a chefnogaeth a nodir gan yr asesiad os nad yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chefnogaeth i ddiwallu'r angen; neu • yr awdurdod lleol yn galluogi'r angen i gael ei ddiwallu trwy wneud taliadau uniongyrchol.

Tabl (2): Y person sy'n cael ei asesu (Plentyn)	
Amod 1	<p>Mae'n rhaid i'r angen godi o un o'r amgylchiadau a nodir yn y Rheoliadau.</p> <p>Dan Reoliad 4 yr amgylchiadau perthnasol yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • afiechyd corfforol neu feddyliol; • oed; • anabledd; • dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau; • amgylchiadau eraill tebyg; neu • mae'r angen yn un sy'n debygol, os nad yw'n cael ei ddiwallu, o gael effaith andwyol ar ddatblygiad y plentyn.
Amod 2	<p>Mae'n rhaid i'r angen ymwneud ag un o'r canlyniadau a nodir yn y Rheoliadau.</p> <p>Dan Reoliad 3 y canlyniadau perthnasol yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gallu i gyflawni hunanofal neu ofalu am y cartref; • gallu i gyfathrebu; • amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod; • cymryd rhan mewn gwaith, addysg, dysgu neu weithgareddau hamdden; • cynnal neu ddatblygu teulu neu berthynas bersonol arwyddocaol arall; • datblygu a chynnal perthynas gymdeithasol a chymryd rhan yn y gymuned; neu • cyflawni nodau datblygiadol.
	<p><i>Yr un ystyr sydd i hunanofal yma â hunanofal oedolion (gweler Tabl 1).</i></p> <p><i>Dan Reoliad 5 mae cyfeiriadau at ddatblygiad plentyn yn cynnwys datblygiad corfforol, deallusol, emosïynol, cymdeithasol ac ymddygiadol y plentyn hwnnw.</i></p>
Amod 3	<p>Mae'n fath o angen nad yw rhieni'r plentyn, nac unrhyw berson arall sydd â rôl rhiant, yn medru diwallu'r angen hwnnw un ai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ar eu pennau eu hunain na chyda'i gilydd; • ynghyd â gofal a chefnogaeth pobl eraill sy'n fodlon darparu'r gofal a'r gefnogaeth; neu • gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned y mae gan y plentyn, y rhieni neu bersonau eraill sydd â rôl rhiant, fynediad iddynt.
	<p><i>Dan Reoliad 4:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • mae "personau eraill sydd â rôl rhiant" yn cynnwys personau sydd â chyfrifoldeb rhiant neu berthnasau sy'n chwarae rôl o ofalu am blentyn; • o ran plentyn mae "perthynas" yn golygu llys-riant, nain neu daid, brawd, chwaer, ewythr neu fodryb (gan gynnwys unrhyw berson sydd yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus). <p><i>Dan Reoliad 6 ystyrir person fel rhywun sydd ddim yn gallu diwallu angen os yw, wrth wneud hynny ar ei ben ei hun neu gyda chymorth gan eraill, un ai:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • yn achosi poen, pryder neu ofid sylweddol i'r person hwnnw; • yn peryglu neu'n debygol o beryglu iechyd neu ddiogelwch y person hwnnw neu berson arall; neu • yn cymryd llawer mwy o amser nag y byddai fel arfer.
Amod 4	<p>Mae'r plentyn yn annhebygol o gyflawni un neu fwy o'r canlyniadau personol a enwir gan yr asesiad o'u hanghension gofal a chefnogaeth os nad yw'r:</p> <ul style="list-style-type: none"> • awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chefnogaeth i ddiwallu'r angen; neu • awdurdod lleol yn galluogi'r angen i gael ei ddiwallu trwy wneud taliadau uniongyrchol.

Tabl (3): Y person sy'n cael ei asesu (Gofalwr)	
Amod 1	<p>Mae'n rhaid i'r angen godi o un o'r amgylchiadau a nodir yn y Rheoliadau.</p> <p>Dan Reoliad 5 mae'r amgylchiadau perthnasol yn darparu gofal un ai ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> • oedolyn sydd ag anghenion sy'n bodloni Amod 1 a 2 mewn perthynas ag oedolion; neu • plentyn anabl.
Amod 2	<p>Mae'n rhaid i'r angen ymwneud ag un o'r canlyniadau a nodir yn y Rheoliadau.</p> <p>Dan Reoliad 5 y canlyniadau perthnasol yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gallu i gyflawni humanofal neu ofalu am y cartref; • gallu i gyfathrebu; • amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod; • cymryd rhan mewn gwaith, addysg, dysgu neu weithgareddau hamdden; • cynnal neu ddatblygu teulu neu berthynas bersonol arwyddocaol arall; • datblygu a chynnal perthynas gymdeithasol a chymryd rhan yn y gymuned; neu • yn achos gofalwr sy'n oedolyn, cyflawni cyfrifoldebau gofalu am blentyn; • yn achos gofalwr sy'n blentyn, cyflawni nodau datblygiadol.
	<i>Yr un ystyr sydd i humanofal yma â humanofal oedolion (gweler Tabl 1).</i>
Amod 3	<p>Mae'n fath o angen nad yw'r gofalwr yn gallu diwallu'r angen hwnnw un ai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ar ei ben ei hun; • gyda gofal a chefnogaeth pobl eraill sy'n fodlon darparu'r gofal a'r gefnogaeth honno; neu • gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned, y mae gan y gofalwr fynediad iddynt.
	<p><i>Dan Reoliad 6 ystyrir person fel rhywun sydd ddim yn gallu diwallu angen os yw, wrth wneud hynny ar ei ben ei hun neu gyda chymorth gan eraill, un ai:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>yn achosi poen, pryder neu ofid sylweddol i'r person hwnnw;</i> • <i>yn peryglu neu'n debygol o beryglu iechyd neu ddiogelwch y person hwnnw neu berson arall; neu</i> • <i>yn cymryd llawer mwy o amser nag y byddai fel arfer.</i>
Amod 4	<p>Mae'r gofalwr yn annhebygol o gyflawni un neu fwy o'r canlyniadau personol a enwir gan yr asesiad o'u hanghngion gofal a chefnogaeth os nad yw'r:</p> <ul style="list-style-type: none"> • awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chefnogaeth ar gyfer y gofalwr i ddiwallu angen y gofalwr; neu • awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chefnogaeth i'r person y mae'r gofalwr yn darparu gofal iddo, er mwyn diwallu angen y gofalwr • awdurdod lleol yn galluogi'r angen i gael ei ddiwallu trwy wneud taliadau uniongyrchol.

Noda Côd Rhan 4 (paragraff 38) fod gan yr awdurdod lleol, mewn amgylchiadau arbennig, ddyletswydd i ddiwallu anghenion yr unigolyn beth bynnag fo'r defnydd o'r meini prawf cymhwyster, sef:

- Os yw'r person yn oedolyn ac mae'n angenrheidiol diwallu ei anghenion er mwyn eu hamddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu berygl o gamdriniaeth neu esgeulustod, yna mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddiwallu'r anghenion hynny.
- Os yw'r person yn blentyn (gan gynnwys gofalwr sy'n blentyn) ac mae'n bwysig diwallu ei anghenion er mwyn amddiffyn y person rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu berygl o gamdriniaeth neu esgeulustod neu er mwyn

amddiffyn y plentyn rhag niwed arall neu berygl o niwed o'r fath, yna mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddiwallu'r anghenion hynny.

Noda Côt Rhan 4 (paragraff 42) hefyd fod gan awdurdodau lleol rymoedd diamod i ddiwallu anghenion gofal a chefnogaeth beth bynnag fo penderfyniad y cymhwyster.

Mae'r angen dan y meini prawf cymhwyster i ystyried cymorth y mae'r oedolyn neu'r plentyn yn ei gael gan bobl eraill sy'n fodlon darparu gofal a chefnogaeth, yn meddwl y gall berson gael ei ddatgan yn anghymwys i gael gofal a chefnogaeth oherwydd bod ganddo aelodau o'r teulu neu ofalwyr eraill sy'n fodlon darparu cymorth a fyddai fel arall yn gorfod cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol. Wrth gynnal asesiad cymhwyster, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol enwi bob un o anghenion amlwg yr unigolion, gan gynnwys unrhyw anghenion sy'n cael eu diwallu gan ofal a chefnogaeth a ddarperir gan bobl eraill. Os yw'r person sy'n darparu gofal a chefnogaeth yn rhoi'r gorau i wneud hynny, bydd hyn yn golygu newid sylweddol mewn amgylchiadau a bydd gofyn i'r awdurdod lleol ymgymryd ag ailasesiad o anghenion gofal a chefnogaeth yr unigolyn.

Os yw'r asesiad yn dod i'r casgliad bod y person yn gymwys i gael gofal a chefnogaeth, mae **rh54 DGCLI 2014** yn mynnu bod **cynllun gofal a chefnogaeth** yn cael ei wneud. Mae Côt Rhan 4 (pennod 2) yn darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â ffurf a chynnwys y cynllun gofal a chefnogaeth a hefyd yn nodi bod yn rhaid cael ymarferwr a enwir i weithredu fel cydgysylltydd y cynllun.

Os yw'r person yn anghytuno ag asesiad cymhwyster yr awdurdod lleol, yna dylid rhoi gwybodaeth iddynt ynghylch y ffordd o gael mynediad at y [Weithdrefn Gwyno](#).

Yn yr un modd ag y gall unigolyn wrthod cael ei asesu, mae'n bosibl i rywun sydd, yn ôl ei asesiad, angen gofal a chefnogaeth, wrthod y gwasanaethau a gynigir gan yr awdurdod lleol. Os bydd hyn yn digwydd, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gadw cofnod o'r gwrthodiad ac fe all yr unigolyn ailystyried ei wrthodiad unrhyw bryd.

1.8 Pa wasanaethau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu darparu?

Mae **Côt Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion)** (paragraff 84) yn datgan yr wybodaeth y mae'n rhaid ei gynnwys yn y cynllun gofal a chefnogaeth, sef:

- y canlyniadau llesiant personol sydd wedi'u nodi;
- y gweithrediadau sydd i'w gwneud gan yr awdurdod lleol a phobl eraill i helpu'r unigolyn gyflawni'r canlyniadau;
- yr anghenion fydd yn cael eu diwallu trwy ddarparu'r gofal a'r gefnogaeth;
- sut y bydd cynnydd tuag at gyflawni'n canlyniadau yn cael ei fesur a'i fonitro;
- dyddiad adolygiad nesaf y cynllun.

Mae Côt Rhan 4 (paragraff 85) yn nodi y dylai'r cynllun, ble mae'n briodol, ddatgan hefyd:

- rolau a chyfrifoldebau'r unigolyn, gofalwyr ac aelodau o'r teulu ac ymarferwyr;

- yr adnoddau (gan gynnwys adnoddau cyllidol) sydd eu hangen gan bob parti.

Nid oes dim o'r ddeddfwriaeth yn pennu sut y dylai awdurdodau lleol ddiwallu anghenion cymwys yr unigolyn ac felly bydd gan awdurdodau lleol ryddid i weithredu o ran y gwasanaethau maent yn dewis eu darparu. Fodd bynnag, mae **rh34 DGCLI 2014** yn gosod rhai enghreifftiau o ddarpariaethau y gall awdurdodau lleol ddewis eu cynnig i ddiwallu anghenion gofal a chefnogaeth y boblogaeth leol:

- llety mewn cartref gofal, cartref plant neu adeiladau o fath arall;
- gofal a chefnogaeth gartref neu yn y gymuned;
- gwasanaethau, nwyddau a chyfleusterau;
- gwybodaeth a chynghor;
- cynghori ac eiriolaeth;
- gwaith cymdeithasol;
- taliadau (gan gynnwys taliadau uniongyrchol);
- cymhorthion ac addasiadau; a
- therapi galwedigaethol.

Nid oes raid i'r awdurdod lleol ei hun ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ac efallai y bydd yn dewis i'w dirprwyo o ffynonellau allanol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir o ansawdd priodol ac felly mae ganddo ddyletswydd i fonitro'r gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol a'r gwasanaethau sydd wedi'u gosod ar gytundeb.

Mewn gwirionedd, mae'r gwasanaethau a gyflawnir gan awdurdodau lleol yn ffurfio tri phrif ddsbarth:

- gofal preswyl;
- gwasanaethau dibreswyl/cartref; a
- taliadau uniongyrchol

Nid yw dyletswydd yr awdurdod lleol i ddiwallu angen cymwys yn ddibynnol ar oblygiadau adnoddau, sy'n golygu bod yn rhaid i bob angen cymwys gael ei ddiwallu gan yr awdurdod lleol waeth beth fo'r goblygiadau ariannol a ddaw o ddarparu'r gwasanaethau angenrheidiol (gweler ***R v Gloucester County Council [1997] UKHL 58***). Fodd bynnag, os oes mwy nag un dewis ar gael i ddiwallu angen cymwys yr unigolyn, yna gall yr awdurdod lleol gynnig y dewis rhataf yn unig, ar yr amod ei fod yn ddigonol i ddiwallu'r angen perthnasol.

1.9 A gaiff yr awdurdod lleol godi tâl am wasanaethau gofal a chefnogaeth?

Mae **Rhan 59 DGCLI 2014** yn rhoi'r grym i awdurdodau lleol godi tâl am wasanaethau gofal a chefnogaeth. Mae'r [Côd Ymarfer Rhan 4 a 5 \(Codi Ffioedd ac Aseidiadau Ariannol\)](#) (paragraff 3.4) yn crynhoi'r egwyddorion allweddol y dylai awdurdodau lleol eu rhoi ar waith wrth lunio **polisi codi tâl** ar gyfer gwasanaethau gofal a chefnogaeth a noda y dylai awdurdodau lleol:

- beidio â chodi mwy o dâl na'r gost y mae'r awdurdod lleol yn mynd iddo mewn gwirionedd wrth ddarparu neu drefnu'r gwasanaethau;

- sicrhau nad yw mwy o dâl yn cael ei godi ar bobl nag sy'n weddol ymarferol iddynt ei dalu.

Yn ogystal, noda Côt Rhan 4 a 5 (paragraff 5.12) bod yn rhaid i rai gwasanaethau gofal a chefnogaeth gael eu darparu'n rhad ac am ddim bob amser gan gynnwys:

- asesiadau i benderfynu cymhwyster rhywun i gael gwasanaethau gofal a chefnogaeth ac unrhyw wasanaethau adolygu/ailasesu;
- gwasanaethau ailalluogi hyd at chwe wythnos o hyd i gefnogi pobl i ddychwelyd at fyw'n annibynnol;
- gofal a chefnogaeth os oes gan berson glefyd Creutzfeldt-Jacob;
- cludo i wasanaeth dydd, ble darperir gwasanaeth i ddiwallu anghenion unigolyn;
- ôl-ofal a ddarperir dan rh117 Deddf Iechyd Meddwl 1985;
- gwasanaethau eiriolaeth annibynnol broffesiynol.

Pan fydd awdurdod lleol yn penderfynu ei fod yn bwriadu codi tâl am wasanaethau gofal a chefnogaeth, mae'n rhaid bod ganddo bolisi codi tâl clir ac mae'n rhaid iddo ddarparu gwasanaeth asesu ariannol i benderfynu beth y gall yr unigolyn yn rhesymol fforddio ei dalu.

1.10 Pwy sy'n rhaid talu am wasanaethau gofal a chefnogaeth?

Rhagnoda **Rhan 60 DGCLI 2014** pwy all orfod talu am wasanaethau gofal a chefnogaeth ac mae'r ffordd a gymerir o fynd ati yn dibynnu pa un a yw'r gwasanaethau yn cael eu darparu ar gyfer oedolyn neu blentyn sydd angen gofal a chefnogaeth neu ofalwr sydd angen cefnogaeth. Mae'r Tabl canlynol yn crynhoi'r sail y bydd unrhyw asesiad ariannol yn cael ei gyflwyno arno:

Y person sy'n cael gofal a/neu gefnogaeth	Sail i'r asesiad ariannol
Oedolyn	Y person sy'n gyfrifol am dalu unrhyw dâl yw'r oedolyn ac felly bydd incwm a chyfalaf yr oedolyn yn cael ei asesu (rh60(2) DGCLI 2014).
Plentyn	<p>Pan fydd y gofal a'r gefnogaeth yn cael ei ddarparu ar gyfer y plentyn, y person fydd yn gyfrifol am dalu unrhyw dâl fydd unrhyw oedolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn ac, felly, incwm a chyfalaf y person hwnnw fydd yn rhaid ei asesu (rh60(3) DGCLI 2014).</p> <p>Pan fydd anghenion y plentyn am ofal a chefnogaeth yn cael eu diwallu gan ddarpariaeth gwasanaethau i oedolyn, y person sy'n gyfrifol am dalu unrhyw dâl yw'r oedolyn sy'n cael gwasanaethau ac, felly, incwm a chyfalaf yr oedolyn hwnnw fydd yn rhaid ei asesu (rh60(3) DGCLI 2014).</p> <p><i>Fodd bynnag, noda'r Côt Ymarfer Rhan 4 a 5 (Codi Ffioedd ac Aseidiadau Ariannol) (paragraff 5.6) bod rheoliad 3 o Reoliadau Gofal a Chefnogaeth (Codi Ffioedd) (Cymru) 2015 yn rhwystro i unrhyw dâl gael ei godi am ofal a chefnogaeth a ddarperir neu a drefnir i ddiwallu anghenion plentyn. Felly, tra bo'r DGCLI 2014 yn caniatáu i daliadau gael eu codi mewn egwyddor, mae codi tâl yn cael ei rwystro gan y rheoliadau ac felly ni all awdurdod lleol godi</i></p>

	<i>tâl am wasanaethau gofal a chefnogaeth a ddarperir ar gyfer plant.</i>
Gofalwr (Oedolyn)	<p>Y gofalwr sy'n oedolyn yw'r person sy'n gyfrifol fel arfer am dalu unrhyw dâl ac felly bydd incwm a chyfalaf y gofalwr yn cael eu hasesu (rh60(4) DGCLI 2014).</p> <p>Fodd bynnag, os yw anghenion y gofalwr am gefnogaeth yn cael eu diwallu gan y ddarpariaeth o ofal a chefnogaeth i oedolyn, y person sy'n gyfrifol am dalu unrhyw dâl yw'r oedolyn sy'n cael gwasanaethau ac, felly, incwm a chyfalaf yr oedolyn hwnnw fydd yn rhaid cael eu hasesu (rh60(4) DGCLI 2014).</p>
Gofalwr (Plentyn)	<p>Pan fydd cefnogaeth yn cael ei darparu ar gyfer gofalwr sy'n blentyn, y person sy'n gyfrifol am dalu unrhyw dâl fel arfer yw'r oedolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn ac, felly, incwm a chyfalaf y person hwnnw fydd yn rhaid ei asesu (rh60(4) DGCLI 2014).</p> <p><i>Fodd bynnag, mae'r gwaharddiad a nodir uchod mewn perthynas â gwasanaethau gofal a chefnogaeth i blant yn wir hefyd am blant sy'n ofalwyr ac, felly, ni all awdurdod lleol godi tâl am wasanaethau cefnogaeth a ddarperir ar gyfer gofalwyr sy'n blant.</i></p>

1.11 Y broses asesu ariannol;

Unwaith y mae wedi'i gadarnhau adnoddau pwy y dylid eu hystyried, mae'r [Rheoliadau Gofal a Chefnogaeth \(Asesiad Ariannol\) \(Cymru\) 2015](#) a'r [Rheoliadau Gofal a Chefnogaeth \(Codi Ffioedd\) \(Cymru\) 2015](#) yn datgan y ffordd o fynd ati y dylai'r awdurdodau lleol ei gymryd wrth asesu faint, os o gwbl, y mae'n eithaf ymarferol i'r person dalu am y gwasanaethau gofal a/neu gefnogaeth a ddarperir. Yr egwyddor hollgyffredinol y tu ôl i bolisi'r ffioedd yw mai'r hyn y gallant ei fforddio yn unig sy'n ofynnol i'r bobl y gofynnir iddynt dalu tâl ei dalu.

Noda Reoliad 6 o Reoliadau Codi Ffioedd nad oes angen i awdurdodau lleol wneud asesiadau ariannol ble:

- nad oes angen talu am y gwasanaeth; neu
- mae cyfradd unffurf wedi'i osod.

Dan y Rheoliadau Codi Ffioedd, mae **tâl cyfradd unffurf** yn dâl penodedig sy'n daladwy gan bawb sy'n derbyn y gwasanaeth, ni waeth beth fo'u modd. Noda'r [Côd Ymarfer Rhan 4 a 5 \(Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol\)](#) (paragraff 6) y dylai taliadau cyfradd unffurf, fel arfer, gael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau lefel isel a chostau isel (megis prydu neu wasanaethau golchi dillad). Pwysleisia Paragraff 6.3 na ddylai awdurdodau lleol osod cyfraddau unffurf ar gyfer pob gwasanaeth fel ffordd o osgoi eu rhwymedigaeth i ymgymryd ag asesiadau ariannol.

Pan fydd asesiad ariannol yn ofynnol, mae'r Rheoliadau Asesiadau Ariannol yn gosod yr egwyddorion cyffredinol y mae'n rhaid eu rhoi ar waith. Mae Rheoliad 34 yn datgan bod yn rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybodaeth allweddol i'r person sy'n cael ei asesu cyn gwneud asesiad ariannol, gan gynnwys:

- cadarnhad o'r gwasanaethau gofal a chefnogaeth a ddarperir;
- manylion o bolisi codi tâl yr awdurdod lleol;
- os yw taliadau uniongyrchol yn cael eu darparu, manylion o bolisi'r taliadau uniongyrchol;
- manylion o'r dogfennau y mae ar y person angen eu rhoi er mwyn galluogi'r awdurdod lleol i ymgymryd â'r asesiad;
- gwybodaeth am y gwasanaethau cefnogi sydd ar gael i roi cymorth i'r person â'r broses asesu.

Mae Rheoliad 4 yn datgan y dylai'r person sy'n cael ei asesu fel arfer, gael o leiaf **pymtheng niwrnod** i ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd ar yr awdurdod lleol ei angen.

Bydd asesiad ariannol yn asesu incwm a chyfalaf y person. Noda Côd Rhan 4 a 5 (paragraff 5.3), os yw'r person sy'n cael ei asesu "*yn dal incwm neu gyfalaf fel un o gwpl, y dybiaeth i ddechrau yw bod gan bob person gyfran gyfartal o bob un*".

Wrth asesu **incwm** person, gall yr awdurdod lleol wneud un o dri pheth:

- diystyru'r incwm;
- diystyru'r incwm yn rhannol; neu
- cynnwys yr incwm yn llwyr yn yr asesiad.

Ystyrir incwm bob amser yn glir o unrhyw dreth neu gyfraniadau yswiriant gwladol (i.e. hynny o incwm sydd ar gael ar ôl didynnu treth ac yswiriant gwladol). Os bydd incwm yn cael ei 'ddiystyru' bydd yn cael ei anwybyddu (neu ei anwybyddu'n rhannol) ar gyfer dibenion asesu'r incwm. Mae Côd Rhan 4 a 5 (Atodiad B) yn dweud pa incwm fydd yn cael ei ddiystyru ac mae'n cynnwys:

- unrhyw enillion o gyflogaeth (gan gynnwys hunangyflogaeth);
- elfen symudedd Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Personol;
- taliadau uniongyrchol;
- Credyd Treth Gwaith.

Mae Côd Rhan 4 a 5 (Atodiad B) hefyd yn dweud beth yw'r incwm fydd yn cael ei ddiystyru'n rhannol ac mae'n cynnwys:

- Y £10 cyntaf yr wythnos mewn perthynas ag unrhyw Bensiwn Rhyfel Gŵr Gwedd/Gwraig Weddw;
- 'diystyru cynilion' o hyd at £5.75 yr wythnos mewn perthynas ag unrhyw bensiwn galwedigaethol neu gynilion tebyg.

Bydd pob incwm arall fel arfer yn cael ei gynnwys yn llwyr yn asesiad yr incwm, gan gynnwys:

- taliadau pensiwn gwladol;
- Lwfans Gweini;

- elfen gofal Lwfans Byw i'r Anabl ac elfen bywyd beunyddiol y Taliad Annibyniaeth Personol;
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Wrth brisio gwerth **cyfalaf** y person, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddilyn Côd Rhan 4 a 5 (Atodiad A), a bydd yn ystyried pethau fel:

- cynilion;
- bondiau premiwm;
- stociau a chyfrannau;
- eiddo (gan gynnwys gwerth cartref y person onid yw'n cael ei ddiystyru oherwydd y ffaith y bydd partner y person (neu berthynas cymwys arall) yn parhau i fyw yno).

Mae'r dull a gymerir i asesu **cyfalaf** person yn amrywio gan ddibynnu pa un a yw'r person yn cael ei asesu ar gyfer gwasanaethau preswyl neu ddibreswyl:

- Os yw'r person yn cael ei asesu ar gyfer gwasanaethau preswyl, bydd yr awdurdod lleol yn ystyried holl asedau a chynilion y person (gan gynnwys ei gartref, os nad yw wedi'i ddiystyru) a therfyn y cyfalaf ar hyn o bryd yw £30,000.
- Os yw'r person yn cael ei asesu ar gyfer gwasanaethau dibreswyl, bydd yr awdurdod lleol yn ystyried holl asedau a chynilion y person (ac eithrio ei gartref, gan y bydd y person yn dal i fyw yno) a therfyn y cyfalaf ar hyn o bryd yw £24,000.

(Fel arfer fe adolygir terfynau'r cyfalaf yn flynyddol ac felly fe all y ffigyrau hyn newid.)

Os yw cyfalaf y person yn llai na therfyn y cyfalaf perthnasol, yna fe'i diystyri yn llwyr a chaiff asesiad ariannol yr awdurdod lleol ei seilio ar incwm y person. Os bydd cyfalaf y person yn fwy na therfyn y cyfalaf, yna gellir gofyn iddynt dalu am y gwasanaethau a ddarperir. Fodd bynnag, os nad oes gan y person gyfalaf sy'n hawdd cael gafael arno (e.e. oherwydd bod mwyafrif ei gyfalaf ynghlwm wrth werth ei eiddo) mae'n bosibl gofyn am i'r awdurdod lleol gychwyn **cytundeb gohirio talu**. Canlyniad i hyn yw y bydd yr awdurdod lleol yn cymryd yr eiddo dan ei ofal, fydd wedyn yn cael ei dalu yn ôl yn y diwedd pan fydd yr eiddo'n cael ei werthu.

Noda Côt Rhan 4 a 5 (pennod 8), os bydd person yn cael gwared â'u hasedau cyfalaf (neu incwm) yn fwriadol er mwyn lleihau ei atebolrwydd i dalu taliadau mewn perthynas â gwasanaethau gofal a chefnogaeth, yna gall yr awdurdod lleol asesu incwm/cyfalaf person fel petai yn dal â'r ased yn ei feddiant, sy'n golygu ei fod yn debygol o orfod talu mwy am y gwasanaethau a ddarperir. Yn ogystal, gall yr awdurdod lleol geisio adennill yr incwm a gollwyd gan y person y trosglwyddwyd yr ased iddo.

Unwaith y mae'r awdurdod lleol wedi cyfrifo incwm a chyfalaf y person, mae'n rhaid iddo asesu faint, os o gwbl, y mae'n rhesymol ymarferol i'r person dalu am ei wasanaethau gofal a/neu gefnogaeth. Mae'r dull o weithredu yn amrywio gan ddibynnu pa un a yw'r gwasanaethau a ddarperir yn:

- ofal preswyl;
- gwasanaethau dibreswyl/cartref; neu
- taliadau uniongyrchol.

Pan fydd angen **gwasanaethau preswyl** ar y person i ddiwallu ei anghenion gofal a chefnogaeth, fel arfer bydd arnynt angen cwrdd â pheth o'r costau neu'r costau i gyd. (Nid yw gwasanaethau gofal a chefnogaeth yn cynnwys darpariaeth gofal iechyd (nyrsio) a draffodir ar wahân yn **Rhan 2 – Gwasanaethau gofal iechyd: dyletswydd a rhwymedigaethau byrddau iechyd lleol**.) Fel arfer, mae gwasanaethau preswyl yn cael eu darparu trwy gartrefi gofal, sy'n gallu cael eu rhedeg yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol neu gan ddarparwyr preifat. Os yw'r person, yn ôl ei asesiad, angen gofal preswyl, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd ddiamed beth bynnag yw ei adnoddau (a chadarnhawyd hyn gan y Llys Apêl yn ***R v Sefton Metropolitan Borough Council ex parte Help the Aged* [1997] 4 All ER 532**).

Os yw cyfalaf y person uwchben terfyn y cyfalaf, fe fydd yn 'hunangyllidwr' ac felly fe fydd yn rhaid iddo dalu holl gostau'r gofal preswyl ei hun. Os yw cyfalaf y person yn is na therfyn y cyfalaf, fel arfer disgwylir iddo gyfrannu tuag at gostau ei ofal o'i incwm. Wrth asesu pa gyfraniad y dylai person ei wneud o'i incwm, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddal sylw ar y ffaith na ddylai unrhyw berson gael ei ddal gyda llai na **chyfanswm y lleiafswm incwm**, i'w wario ar bethau personol nad ydynt yn rhan o'i ofal a'i gefnogaeth. Ar hyn o bryd mae'r cyfanswm hwn wedi'i osod ar £27.50 yr wythnos, ond adolygir y ffigwr hwn yn flynyddol ac felly fe all newid.

Pan fydd y person, yn ôl ei asesiad, angen gofal preswyl, datgana reoliadau [Gofal a Chefnogaeth \(Dewis o Lety\) \(Cymru\) 2015](#) fod gan y person hawl i ddewis y llety mae'n byw ynddo, ar yr amod:

- y gall y cartref gofal gwrdd ag anghenion asessedig y person;
- bod lle ar gael;
- nad yw'r cartref gofal yn codi mwy o dâl nag y buasai'r awdurdod lleol fel arfer yn ei dalu er mwyn sicrhau bod yr anghenion asessedig yn cael eu cwrdd; a
- bod y cartref gofal yn barod i dderbyn amodau a thelerau'r awdurdod lleol.

Yn ***R (Goldsmith) v London Borough Of Wandsworth [2004] EWCA Civ 1170***, barnai'r Llys Apêl bod yr awdurdod lleol wedi torri hawl Apêl 8 menyw 95 oed i fywyd preifat a theuluol, pan benderfynodd na ddylai hi ddychwelyd o'r ysbyty i'r cartref gofal yr oedd wedi bod yn byw ynddo ynghynt. Nododd y Llys nad oedd yr awdurdod lleol wedi asesu'r effaith gorfforol a seicolegol y buasai'r symud yn ei gael ar y fenyw yn iawn.

Cyhyd â bod yr amgylchiadau dan Reoliadau ‘Dewis o Lety’ yn cael eu cwrdd, mae gan y person hawl i ddewis llety mewn unrhyw ran o’r Deyrnas Unedig.

Os bydd person yn dymuno byw mewn cartref gofal sy’n codi mwy o dâl na’r gost arferol y buasai’r awdurdod lleol yn ei dalu, yna gall y person barhau i ddewis byw yn y llety sydd orau ganddo ond bydd angen **cyfraniad ‘ar ben hynny’** neu **gyfraniad trydydd person**. Bydd angen y cyfraniad hwn i sicrhau bod y cartref yn cael y gwahaniaeth rhwng yr hyn mae’r cartref yn ei godi a’r hyn mae’r awdurdod lleol yn barod i dalu. Mae arian y cyfraniad yn daladwy yn ychwanegol at unrhyw gyfraniad y mae’n rhaid i’r person ei dalu tuag at gostau ei ofal. Felly, ran amlaf, mae’n rhaid i’r cyfraniad gael ei roi gan drydydd person ac nid gan y person sy’n mynd i fod yn preswyl yn y cartref gofal. Cyn i drefniad y cyfraniad gael ei gytuno felly, bydd yn rhaid i’r trydydd person (aelod o’r teulu fel arfer) ddangos ei fod yn fodlon ariannu’r costau ychwanegol sydd ei angen i’r person gael byw yn y cartref sydd orau ganddo a bod ganddo’r modd i gwrdd â’r costau cyhyd ag y mae’r trefniad yn para.

Nid oes gan berson hawl i aros yn y cartref gofal o’u dewis os bydd penderfyniad wedi’i wneud i gau’r cartref. Mae nifer o heriau cyfreithiol wedi’u gwneud yn yr amgylchiadau hyn, ac yn gyffredinol mae’r llysoedd wedi barnu, cyhyd â bod yr awdurdod lleol wedi ymgynghori’n briodol ac wedi ystyried pob mater perthnasol, mai’r ffordd y mae’r preswylwyr yn cael eu symud, yn hytrach nag egwyddor y symud ei hun, sy’n bwysig (gweler ***R v Wandsworth London Borough Council ex parte Beckwith [1996] 1 W.L.R 60***). Yr un yw’r egwyddor pan fydd yr awdurdod lleol yn ystyried cau gwasanaeth dibreswyl, megis canolfan dydd (gweler ***R (Bishop) v Bromley London Borough Council [2006] EWHC 248 (Admin)***).

Pan fydd ar y person angen **gofal preswyl dros dro**, bydd yr awdurdod lleol yn rhoi’r un broses asesu ariannol ar waith ag y bydd ar gyfer gofal preswyl oni bai bod yr arhosiad yn llai nag wyth wythnos, a phryd hynny, y broses asesu ariannol ar gyfer gwasanaethau dibreswyl fydd yn cael ei rhoi ar waith.

Pan fydd ar y person angen **gwasanaethau dibreswyl**, mae Rheoliad 7 o Reoliadau Codi Ffioedd yn rhoi cap ar y swm y gall yr awdurdod lleol ei godi. Gelwir y cap yn **fwyafswm tâl wythnosol**, ac ar hyn o bryd y mae’n £70 yr wythnos. (Fel gyda therfynau’r cyfalaf, adolygir y swm hwn yn flynyddol ac felly gall y ffigur newid.) Os yw cost y gwasanaeth yn llai na’r mwyafswm tâl wythnosol i’r awdurdod lleol, yna’r mwyaf y gall y person orfod talu am y gwasanaeth yw’r gost wirioneddol. Os yw’r gwasanaeth yn costio’n fwy i’r awdurdod lleol na mwyafswm y tâl wythnosol, yna ni ellir codi mwy o dâl ar y person na mwyafswm y tâl wythnosol beth bynnag yw ei incwm a’i gyfalaf. Felly, y mwyaf y dylai unrhyw berson ei dalu am ofal a chefnogaeth ddibreswyl yw £70 yr wythnos. Yr unig eithriad i hyn yw pan fydd rhywun yn cael gwasanaethau preswyl taladwy a gwasanaethau a gyflenwir am gyfradd unffurf. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yn rhaid i’r person

dalur gost am y gwasanaeth cyfradd unffurf yn ychwanegol at unrhyw dâl y mae'r person yn ei wneud tuag at gostau gwasanaethau eraill.

Fodd bynnag, ni ddylid disgwyl i unrhyw berson dalu mwy nag sydd yn rhesymol ymarferol iddo dalu. Felly, pan fydd yr awdurdod lleol yn cwblhau'r asesiad ariannol, bydd yn rhaid iddo benderfynu faint y gall y person fforddio ei dalu yn seiliedig ar ei gyfalaf a'i incwm.

Os yw cyfalaf y person yn fwy na therfyn y cyfalaf, yna mae'n debygol y bydd yn ofynnol iddo dalu cost lawn y gwasanaeth, hyd at fwyafswm y tâl wythnosol. Os yw cyfalaf y person yn is na therfyn y cyfalaf, bydd yr awdurdod lleol yn ystyried incwm y person. Fel gyda gwasanaethau preswyl, wrth asesu'r cyfraniad y dylai'r person ei wneud o'i incwm, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y person yn cadw **cyfanswm lleiafswm ei incwm** er mwyn cwrdd â'i dreuliau byw sylfaenol. Pan fydd y person yn cael gwasanaethau dibreswyl, mae'r Côt Rhan 4 a 5 yn datgan bod cyfanswm y lleiafswm yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

- *hawl sylfaenol* – y Warrant Credyd Pensiwn y mae person yn ei gael (neu swm cyfwerth);
- *taliad clustogi* – codiad o 35% o'r hawl sylfaenol;
- *treuliau cysylltiedig ag anabledd* – codiad o 10% o'r hawl sylfaenol (y gellir ei gynyddu os yw'r gwario gwirioneddol ar eitemau cysylltiedig ag anabledd yn fwy na'r 10% a awgrymir).

Ni ellir mynnu bod person yn defnyddio cyfanswm lleiafswm ei incwm i gyfrannu tuag at gost ei wasanaethau gofal a chefnogaeth. Felly, os yw person, yn ôl yr asesiad, yn cael cyfanswm o £270 yr wythnos o incwm a chyfanswm lleiafswm ei incwm yw £250 yr wythnos, y mwyaf y gellid gofyn iddo gyfrannu tuag at gostau ei ofal a'i gefnogaeth fuasai £20 yr wythnos.

	<p><u>Adnoddau a Gwybodaeth Allweddol:</u> Y broses asesu ariannol</p>
<p>Mae'r ffordd y mae'r awdurdod lleol yn asesu pa un a oes raid i rywun dalu am beth o'i wasanaethau neu'r cyfan o'i wasanaethau gofal a chefnogaeth yn gymhleth. Mae Age Cymru yn gwneud cyfres o daflenni gwybodaeth sy'n egluro, gydag enghreifftiau, sut y dylai'r broses asesu ariannol gael ei gweithredu ac efallai y gwelwch fod y canlynol yn ganllawiau cyfeirio defnyddiol:</p> <ul style="list-style-type: none">❖ Paying for a permanent care home placement in Wales❖ Paying for care and support at home in Wales❖ Deprivation of assets in the means test for care home provision in Wales	

Fel mae'r enw'n awgrymu, mae **taliad uniongyrchol** yn swm o arian y mae'r awdurdod lleol yn ei dalu'n uniongyrchol i'r person. Mae'r person wedyn yn defnyddio'r arian i brynu'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arno. Noda'r [Côd Ymarfer Rhan 4 \(Diwallu Anghenion\)](#) (paragraff 128) bod taliadau uniongyrchol yn caniatáu i berson gael mwy o reolaeth dros y gwasanaethau a'r gefnogaeth mae'n ei gael er mwyn hyrwyddo'i annibyniaeth. Yn gyffredinol, mae taliadau uniongyrchol yn briodol pan fydd anghenion person yn cael eu diwallu trwy wasanaethau dibreswyl/cartref, er bod Côd Rhan 4 (paragraff 133) yn nodi y gallant gael eu defnyddio ar gyfer gofal a chefnogaeth breswyl tymor byr a hirdymor.

Noda'r Côd Rhan 4 (paragraff 146) bod yn rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth i alluogi'r person i benderfynu pa un a yw taliadau uniongyrchol yn addas ar gyfer y person. Yn enwedig, pan fydd person yn mynd i gyflogi rhywun i ddarparu gofal a chefnogaeth, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y person yn gwbl ymwybodol o'i gyfrifoldebau cyfreithiol fel cyflogwr (paragraff 164). Os nad oes gan y person y gallu i gydsynio â threfn y taliadau uniongyrchol, mynega'r Côd Rhan 4 (paragraff 151) y gall person addas gael ei benodi i dderbyn a rheoli'r taliadau uniongyrchol. Yn y pen draw, *"rhaid i awdurdod lleol ond gwneud taliadau uniongyrchol os yw'n fodlon bod yr unigolyn yn gallu rheoli'r taliad ar ei ben ei hun neu gyda chymorth"* (paragraff 170).

Noda'r Côd Rhan 4 (paragraff 139) nad oes mwyafswm na lleiafswm ar gyfer taliadau uniongyrchol ac mae'n rhaid i'r awdurdod lleol dalu'r swm y mae'n meddwl sy'n ddigonol i sicrhau bod y canlyniadau personol a enwyd yn cael eu diwallu. Fel sy'n digwydd gyda darparu gwasanaeth, gall yr awdurdod lleol ymgymryd ag asesiad ariannol ac efallai y bydd gofyn i'r person wneud cyfraniad a gosod swm y taliad uniongyrchol yn ôl hynny.

	<p><u>Adnoddau a Gwybodaeth Allweddol:</u> Taliadau uniongyrchol</p>
<p>Gall rheoli cyllideb taliad uniongyrchol fod yn anodd. Er enghraifft, os oes ar y person angen help â'i ofal personol, bydd arno angen dirprwyo'r gofal hwnnw ei hun a bod yn gyfrifol am wneud y taliadau i'r gofalwyr. Felly, bydd ar yr awdurdod lleol a'r person angen bod yn sicr bod y gwasanaethau cymwys yn cael eu dirprwyo mewn gwirionedd os bydd taliad uniongyrchol yn cael ei wneud.</p> <p>Mae gan 'Diverse Cymru' wefan <u>Taliadau Uniongyrchol</u> sy'n rhoi llawer o wybodaeth ynghylch yr hyn sydd ynghlwm wrth reoli cyllideb taliadau uniongyrchol ac mae 'Diverse Cymru' yn cynnig 'gwasanaeth cyflogres' i helpu i reoli taliadau gofalwyr.</p>	

Noda Côt Rhan 4 a 5 (pennod 12), pan fydd y person yn **ofalwr** ag anghenion cefnogi, mae gan yr awdurdod lleol ryddid i weithredu o ran codi tâl am unrhyw wasanaethau cefnogi a ddarperir. Os bydd tâl yn cael ei godi, dylai'r awdurdod lleol gynnal asesiad ariannol. Fodd bynnag, pwysleisia Côt Rhan 4 a 5 y gall codi tâl ar ofalwr am gefnogaeth fod yn economi ddi-fudd ac wrth wneud unrhyw benderfyniad codi tâl mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried yr effaith y bydd codi tâl yn ei gael ar allu'r gofalwr i ymgymryd â'i rôl gofalu.

1.12 A fedr yr awdurdod lleol dynnu gwasanaethau yn ôl?

Noda Côt Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) (paragraff 113) bod yn rhaid cadw cynlluniau gofal a chefnogaeth dan arolwg. Noda paragraff 125 y gallai arolwg arwain at gadarnhau, diwygio neu derfynu'r cynllun gan yr awdurdod lleol. Os digwydd i'r cynllun gael ei derfynu ac na ddarperir gwasanaethau mwyach, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol greu **datganiad terfynu**, sy'n dangos:

- y rhesymau dros derfynu;
- prisio i ba raddau y cyflawnwyd y canlyniadau lles personol; a
- cadarnhad bod gan y person wybodaeth, cyngor neu gymorth priodol neu fynediad at wasanaethau ataliol yn y gymuned i ddiwallu ei anghenion.

RHAN 2 – GWASANAETHAU GOFAL IECHYD: DYLETSWYDDAU A RHWYMEDIGAETHAU BYRDDAU IECHYD LLEOL

Yn yr un modd â gofal cymdeithasol, mae gofal iechyd yn swyddogaeth ddatganoledig. Golyga hyn fod gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb am y GIG yng Nghymru. Mae cyflawniad gwasanaethau iechyd yng Nghymru trwy:

- saith bwrdd iechyd lleol, gyda bob un yn gyfrifol am ardal ddaearyddol benodol; a
- thair ymddiriedolaeth GIG ('Gwasanaethau Ambiwllans', 'Felindre' a 'Iechyd Cyhoeddus Cymru'), gyda phob un â ffocws Cymru Gyfan.

Gellir dod o hyd i arolwg o'r GIG yng Nghymru, gan gynnwys ffiniau daearyddol pob un o'r byrddau iechyd lleol, yn Iechyd yng Nghymru. Ar gyfer rhwyddineb, defnyddir 'bwrdd iechyd lleol' trwy gydol yr arweinyfr hwn er mwyn amgynnwys yr holl wahanol gyrff GIG sy'n gweithredu yng Nghymru.

Mae'r wybodaeth yn y Rhan hon o'r arweinyfr yn cynnwys:

- 2.1 Pa rwymedigaethau y mae'n rhaid i fyrddau iechyd lleol gadw atynt o ran darparu gwasanaethau gofal iechyd?**
- 2.2 Sut mae cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd?**
- 2.3 Gofal Iechyd Parhaus y GIG**
- 2.4 Gofal nyrsio wedi'i ariannu gan y GIG**
- 2.5 Galluedd meddyliol a materion iechyd meddwl**
- 2.6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a byrddau iechyd**
- 2.7 Crynodeb**

2.1 Pa rwymedigaethau y mae'n rhaid i fyrddau iechyd lleol gadw atynt o ran darparu gwasanaethau gofal iechyd?

Mae'r prif ddyletswyddau y mae a wnelo'r GIG â hwy yng Nghymru yn gynnwysedig yn Neddf y Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (Deddf GIG (Cymru) 2006). Dan **rh1 Deddf GIG (Cymru) 2006**, mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd gyffredinol i sicrhau bod gan Gymru wasanaeth iechyd cynhwysfawr, sy'n sicrhau gwelliannau yn iechyd corfforol a meddyliol pobl Cymru ac yn gwella atal salwch, diagnosis a thriniaeth salwch. Mae **Rhan 3** yn dangos pa wasanaethau iechyd y mae'n rhaid eu darparu:

- gwely mewn ysbyty;
- lleoedd preswyl eraill ar gyfer unrhyw wasanaeth a ddarperir dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006;
- gwasanaethau meddygol, deintyddol, llygadol, nyrsio ac ambiwlans;

- gwasanaethau gofal am fenywod beichiog a menywod sy'n bwydo o'r fron a phlant ifainc;
- gwasanaethau atal salwch, gwasanaethau gofalu am bobl sy'n dioddef gan salwch a gwasanaethau gofal pellach;
- mathau eraill o wasanaethau megis y rhai sydd eu hangen ar gyfer diagnosis a thriniaeth salwch.

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn cynnwys rhestr benodol o'r gwasanaethau y mae'n rhaid eu darparu ac mae'r dyletswyddau a orfodir ar y byrddau iechyd lleol yn gyffredinol iawn. Golyga hyn y gall byrddau iechyd lleol fel arfer ddadlau mai diffyg adnoddau sydd i'w gyfrif am beidio â darparu gwasanaethau neilltuol. Er enghraifft, os yw nod amser aros am driniaeth yn cael ei fethu, mae herio cyfreithiol yn annhebygol o lwyddo oherwydd, er bod methiant wedi bod i gwrdd â nod arbennig, mae'r bwrdd iechyd lleol yn cydymffurfio â'i rwymedigaeth gyffredinol i ddarparu triniaeth. Yn amlwg, mae hyn yn wahanol iawn i sefyllfa'r awdurdodau lleol sy'n darparu gofal cymdeithasol, ble mae'n rhaid diwallu anghenion cymwys waeth beth fo'r problemau o ran adnoddau.

Mae herio cyfreithiol wedi bod yn llwyddiannus os yw bwrdd iechyd lleol wedi methu dilyn arweiniad y llywodraeth, gan fod hyn yn debygol o beri i weithredoedd y bwrdd fod yn anghyfreithlon. Yn yr un modd, mae'r llysoedd wedi dyfarnu na all bwrdd iechyd lleol ddilyn polisiau cyffredinol ynghylch grŵp o gleifion penodol neu driniaeth benodol gan fod hyn yn cyfyngu'r rhyddid i weithredu o ran darparu'r gofal neilltuol sydd ei angen ar y person.

2.2 Sut mae cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd?

I'r rhan fwyaf o bobl bydd eu prif gysylltiad â gwasanaethau gofal iechyd trwy eu Meddyg Teulu neu o ganlyniad i gael eu derbyn i'r ysbyty. Felly, yn wahanol i wasanaethau gofal cymdeithasol, fel arfer nid oes angen proses asesu ffurfiol i gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd. Mae Cyngor ar Bopeth (Cymru) yn darparu arweiniad ar-lein yn egluro'r [gwasanaethau GIG craidd yng Nghymru](#), sy'n rhestru'r gwasanaethau y dylai cleifion eu cael gan feddygon teulu ac ysbytai.

Y manau mwyaf ansicr yw'r manau ble mae'r gwasanaeth sydd ei angen yn dod o'r gymuned. Oherwydd goblygiadau ariannu, yn aml bydd anghytundebau'n codi rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd ynghylch pa un a yw'r gwasanaeth sydd ei angen yn golygu gofal cymdeithasol ynteu gofal iechyd. Rhoddir ystyriaeth i'r ffyrdd y mae gwasanaethau gofal iechyd allweddol yn y gymuned yn cael eu darparu yn y rhannau a ganlyn.

2.3 Gofal Iechyd Parhaus y GIG

Os yw prif angen person yn angen gofal iechyd, efallai bod ganddo hawl i becyn gofal, gan gynnwys gofal personol sy'n cael ei drefnu a'i ariannu'n gyfan gwbl gan

y bwrdd iechyd lleol. Gellir trefnu pecyn Gofal Iechyd Parhaus (GIP) y GIG i gefnogi person sy'n byw mewn amrediad o leoliadau, gan gynnwys ysbyty, tŷ cysur, cartref gofal neu ei le preswyl ei hun. Mantais allweddol o gael pecyn GIP yw bod unrhyw wasanaeth gofal personol fel arfer yn cael ei ddarparu yn rhad ac am ddim, er y gellid codi tâl am wasanaeth tebyg petai'n cael ei ddarparu gan awdurdod lleol fel rhan o becyn gofal cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Fframwaith Cenedlaethol y GIP sy'n gosod y rhwymedigaethau ar fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol i weithio gyda'i gilydd i asesu hawl i gael pecynnau GIP. (Bydd cyswllt y we hefyd yn mynd â chi at nifer o ganllawiau cyffredinol yn ymwneud ag asesu gwasanaethau GIP, gan gynnwys fersiynau 'Hawdd eu Deall'.)

Cyfrifoldeb y bwrdd iechyd lleol yw hi i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod asesiad GIP yn cael ei wneud ym mhob achos ble mae angen. Gall asesiad GIP gael ei ennyn mewn nifer o ffyrdd:

- pan fydd person yn cael ei anfon adref o'r ysbyty ac mae'n ymddangos y bydd arno angen cefnogaeth GIP;
- pan fydd person yn cael ei asesu ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol ac mae'n ymddangos i'r awdurdod lleol mai iechyd yw'r prif angen;
- pan fydd person yn cael gofal preswyl ac mae ei iechyd corfforol neu feddyliol yn gwaethygu fel bo lefel y gofal a ddarperir ddim yn ddigonol bellach;
- pan fydd iechyd corfforol neu feddyliol person yn gwaethygu a bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud trwy feddyg teulu'r person.

Unwaith y daw'n amlwg bod ar berson angen gofal iechyd sylfaenol, bydd **cydgysylltydd gofal** yn cael ei benodi. Bydd y cydgysylltydd yn egluro'r broses asesu ac yn sicrhau bod y person yn deall y broses ac yn cydsynio bod yr asesiad yn cael ei gwblhau. Mae gan y person hawl i gael ei gefnogi trwy'r asesiad a bydd y cydgysylltydd yn darparu gwybodaeth ynghylch gwasanaethau eiriolaeth sydd ar gael.

Bydd yr asesiad yn amlddisgyblaethol a bydd o leiaf dau weithiwr proffesiynol o amrediad o ddisgyblaethau yn cymryd rhan, megis meddygon, nyrsys, therapyddion a gweithwyr cymdeithasol. Bydd y person a'i deulu/gofalwr yn cymryd rhan yn yr asesiad hefyd. Bydd yr asesiad yn edrych a oes gan y person angen iechyd sylfaenol a bydd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:

- **Natur** – y math o anghenion sydd gan berson (e.e. corfforol, meddyliol neu seicolegol). Mae hefyd yn disgrifio'r effeithiau ar y person a'r math o help sydd ei angen i ymdopi â'r anghenion a enwir.
- **Enbydrwydd** – gweld pa ang(h)en(ion) sydd mor ddifrifol fel bo'r person angen gofal sy'n mynd ymlaen.

- **Cymhlethdod** – asesu sut mae'r symptomau'n rhyngweithio a pha un a yw symptomau'n anodd eu trin neu eu rheoli neu pa un a oes angen medr i fonitro symptomau, trin yr anhwylder a/neu ddod â'r gofal i ben.
- **Natur anrhagweladwy** – disgrifio i ba raddau y mae anghenion y person yn amrywio a pha mor anodd y mae i ymdopi â'r anghenion hynny. Y mae hefyd yn disgrifio'r lefel o berygl i iechyd yr unigolyn os nad yw'r gofal priodol yn cael ei ddarparu'n gyflym.

	<u>Adnoddau a Gwybodaeth Allweddol</u> Asesu person sydd ag anabledd dysgu
Mae Fframwaith Cenedlaethol y GIP yn nodi, os bydd y person ag anabledd dysgu, bod yn rhaid i'r asesiad gydymffurfio â'r Datganiad ar bolisi ac arfer ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu .	

Unwaith mae'r asesiad wedi'i gwblhau bydd argymhelliad yn cael ei wneud i'r bwrdd iechyd lleol i weld a yw anghenion y person yn dangos bod gan y person angen gofal iechyd sylfaenol. Os felly, bydd gan y person hawl i becyn cefnogi GIP a bydd cynllun gofal yn cael ei lunio. Fel arfer, bydd yr holl wasanaethau a gynhwysir yn y cynllun gofal yn cael eu hariannu gan y bwrdd iechyd lleol ac ni fydd gofyn i'r person wneud unrhyw gyfraniad tuag at y gost. Tra bo llawer o bobl sydd, yn ôl eu hasesiad, â'r hawl i gael gwasanaethau GIP yn symud i gartref nyrsio, mae'n gwbl bosibl i gael pecyn GIP i gefnogi'r person i fyw yn ei gartref ei hun, ar yr amod bod prif angen y person yn angen sy'n ymwneud â iechyd. Bydd darpariaeth GIP gartref yn dal i gael ei ariannu'n llwyr gan y bwrdd iechyd lleol.

Os na ystyrir y person yn gymwys i gael gwasanaethau GIP, mae'n dal yn bosibl ei fod yn gymwys i gael [gofal nyrsio a ariennir gan y GIG](#) a/neu wasanaethau gofal cymdeithasol (gweler **Rhan 1 – Gwasanaethau gofal cymdeithasol: dyletswyddau a rhwymedigaethau awdurdodau lleol**).

O fewn tri mis i'r person ddechrau cael gwasanaethau GIP, bydd y cydgysylltydd gofal yn trefnu **arolwg amlddisgyblaethol**. Bydd yr arolwg yn ystyried a yw'r person yn dal i fod ag angen iechyd sylfaenol ac, os felly, a yw'r gwasanaethau a ddarperir yn diwallu'r angen hwnnw. Bydd newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r cynllun gofal ac os nad yw'r person yn cael ei asesu fel rhywun sydd ag angen iechyd sylfaenol bellach, gellir dod â gwasanaethau'r GIP i ben. Os penderfynir ar ôl gwneud yr arolwg bod angen iechyd sylfaenol yn dal i fodoli, bydd y person yn dal i gael gwasanaethau GIP a bydd arolygon yn y dyfodol yn digwydd yn flynyddol.

Mae 'Age Cymru' yn gwneud taflen wybodaeth Gofal Iechyd Parhaus y GIG a Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG yng Nghymru, sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am ddarpariaeth gwasanaethau GIP yng Nghymru.

Os bydd asesiad y GIP yn dangos bod person angen gofal nyrsio, gall anghytundebau weithiau godi ynghylch ble y bydd y gofal hwnnw'n cael ei ddarparu. Noda Fframwaith Cenedlaethol y GIP (paragraff 4.11) y dylai penderfyniadau dirprwyo ystyried yr argymhellion a wnaed yn asesiad y GIP a hoffterau'r person. Fodd bynnag, y mae'n rhaid pwyso a mesur y rhain yn erbyn yr angen i sicrhau bod darpariaeth y GIP yn gynaliadwy. Golyga hyn mai'r man cychwyn fel arfer fydd i'r bwrdd iechyd lleol enwi cartref nyrsio sy'n diwallu anghenion y person. Os bydd y person wedyn yn dymuno byw mewn cartref gwahanol (e.e. am ei fod yn agosach at aelodau o'r teulu), dylai'r cais hwnnw gael ei ystyried gan y bwrdd iechyd lleol.

Os nad oes goblygiadau ariannol, mae'n debygol y bydd y bwrdd iechyd lleol yn cytuno â dewis o gartref y person. Fodd bynnag, os bydd y cartref sydd orau gan y person yn codi mwy nag y mae'r bwrdd iechyd lleol yn ei gredu sydd ei angen i ddiwallu anghenion y person, bydd yn rhaid ystyried a yw'r buddion ychwanegol a enwir gan y person, megis medru cynnal perthynas gymdeithasol, yn cyfiawnhau'r gwariant ychwanegol. Os ydynt, yna mae'n bosibl y bydd y bwrdd iechyd lleol yn cytuno i ariannu'r gost lawn. Fodd bynnag, os nad yw'r bwrdd iechyd lleol yn fodlon cwrdd â'r costau uwch, y mae'n bosibl (mewn rhai sefyllfaoedd yn unig) i'r person, neu rywun ar ei ran, dalu swm atodol i gyflenwi'r treuliau ychwanegol. Ystyrir y sefyllfaoedd ble mae hyn yn bosibl yn Fframwaith Cenedlaethol y GIP (paragraffau 4.24-4.45).

Os bydd anghenion y person yn golygu ei symud i leoliad y tu allan i ardal ei fwrdd iechyd lleol presennol, yr egwyddor gyffredinol yw mai'r bwrdd iechyd lleol ble roedd y person yn preswyllo'n wreiddiol sy'n gyfrifol am gwrdd â chostau pecyn y GIP. Noda Fframwaith Cenedlaethol y GIP bod gwybodaeth fanwl ynghylch dirprwyo pecynnau gofal ar gael trwy wefan Gwybodaeth a Chymorth Gofal Cymhleth. Os bydd anghytuno ynghylch comisiynu y tu allan i leoliadau ardal, mae'r Canllawiau Gofal Nyrsio a Ariennir yn dweud pa ddull o weithredu y dylid ei ddilyn. Fodd bynnag, hyd yn oed os oes anghytuno ynghylch trefniadau'r comisiynu, ni ddylai darpariaeth gwasanaethau'r GIP gael eu gohirio, gan y gall materion ariannu gael eu cywiro mewn adolwg.

Yn gyffredinol, nid oes gan berson hawl i barhau i gael y gwasanaethau sydd orau ganddynt os bydd penderfyniad wedi'i wneud i gau'r gwasanaeth hwnnw. Mae'r llysoedd o'r farn mai'r mater allweddol yw sicrhau bod y bwrdd iechyd lleol wedi ymgynghori'n briodol ac wedi ystyried pob mater

perthnasol ac y bydd darpariaeth arall yn cael ei wneud. Er enghraifft, yn ***R (Morris) v Trafford Healthcare NHS Trust [2006] EWHC 2334 (Admin)*** dileodd yr Uchel Lys benderfyniad y bwrdd iechyd lleol i gau nifer o wardiau ysbyty ar sail y ffaith bod y bwrdd iechyd lleol heb ymgynghori'n ddigonol ynghylch cau'r wardiau. Fodd bynnag, er bod y penderfyniad wedi'i ddileu, gwrthododd y Llys orfodi'r bwrdd iechyd lleol i ailagor y wardiau gan aros iddynt ymgymryd â'r broses gywir o wneud y penderfyniad.

2.4 Gofal nyrsio a ariennir gan y GIG

Os nad yw'r person yn gymwys i gael gwasanaethau GIP ond sydd dal angen peth gofal nyrsio, fel arfer bydd ganddo'r hawl i ofal nyrsio a ariennir gan y GIG. Fel arfer bydd person yn gymwys i gael gofal nyrsio a ariennir os bydd yn byw mewn cartref nyrsio ac wedi'i asesu fel rhywun sydd angen gwasanaethau nyrs gofrestredig ond nad yw'n gymwys ar gyfer pecyn gwasanaethau GIP.

Y sefyllfa mwyaf cyffredin ble bydd gofal nyrsio a ariennir gan y GIG yn codi yw pan fydd asesiad GIP yn gweld nad yw person yn cwrdd â meini prawf y GIP ond bod arno angen gofal nyrsio. Mewn sefyllfaoedd o'r fath bydd lle mewn cartref nyrsio yn cael ei drefnu a bydd y bwrdd iechyd lleol yn talu swm penodol tuag at ffioedd y cartref nyrsio, sydd wedi'i lunio i gwrdd â chostau gofal nyrsio'r person. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i'r costau eraill a godir gan y cartref nyrsio gael eu cwrdd gan yr awdurdod lleol a/neu'r person ei hun yn yr un ffordd ag y bydd gofal a chefnogaeth a ddarperir mewn cartref preswyl yn cael ei ariannu (gweler [Y broses asesu ariannol](#)).

Fel gyda gwasanaethau GIP, bydd yr hawl i gael gofal nyrsio a ariennir gan y GIG yn cael ei adolygu ar ôl tri mis ac, ar ôl hynny, yn flynyddol.

Nid yw'n bosibl i rywun sydd mewn cartref preswyl, yn hytrach na chartref nyrsio, gael gofal nyrsio a ariennir gan y GIG. Mae hyn oherwydd nad yw cartrefi gofal yn cyflogi staff nyrsio. Os bydd person, sy'n cael ei anghenion wedi'u diwallu gan ofal preswyl, angen gwasanaethau nyrsio, bydd y rhain yn cael eu darparu am ddim gan y bwrdd iechyd lleol trwy wasanaethau iechyd y gymuned, megis nyrsys rhanbarthol.

2.5 Galluedd meddyliol a materion iechyd meddwl

Os bydd person yn cael ei asesu ar gyfer gwasanaethau GIP (neu ar gyfer gofal cymdeithasol), mae'n rhaid i'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymgymryd â'r asesiad sicrhau bod y person sy'n cael ei asesu yn gallu cyfranogi'n llawn o'r broses asesu.

Os yw'n ymddangos nad yw'r person sy'n cael ei asesu yn medru deall yr asesiad a'r broses o wneud penderfyniad, yna efallai y bydd angen ymgymryd ag asesiad galluedd meddyliol. Dylid ymgymryd ag unrhyw asesiad yn unol â **Deddf Galluedd Meddyliol 2005** a Chôd Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Pe ymgwymerir ag asesiad galluedd meddyliol ac nad oes gan y person unrhyw un (ar wahân i staff cyflogedig) i'w gynrychioli, yna, fel arfer, mae'n rhaid penodi Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol. Hyd yn oed pan fydd teulu/ffrindiau'r person yn fodlon i rywun ymgynghori â hwy, mae penderfyniadau ynghylch galluedd yn gymhleth ac efallai y bydd yn dal yn briodol i gyflogi Eiriolwr Galluedd Meddyliol. Rôl yr Eiriolwr yw:

- cefnogi a chynrychioli y person sydd â diffyg galluedd;
- cyflwyno gwybodaeth i helpu i asesu beth fydd o'r budd pennaf i'r person, gan gynnwys helpu'r person i gyfathrebu ei farn;
- herio unrhyw benderfyniadau nad ydynt, efallai, o'r budd pennaf i'r person.

Yng Nghymru, mae gwasanaethau Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol yn cael eu darparu ar hyn o bryd yn rhanbarthol gan nifer o wahanol fudiadau a gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch y gwasanaethau Eiriolwr Galluedd Meddyliol sydd ar gael yn yr arweinyfr [Eiriolaeth a Mynediad at Wybodaeth, Cyngor a Chymorth](#), sydd ar wahân i'r arweinyfr hwn.

Hyd yn oed os yw'r asesiad yn dangos bod y person yn ddiffygiol o ran galluedd, dylai'r gofal a'r gefnogaeth a ddarperir ar ei gyfer gyfyngu ar ei ryddid yn y ffordd leiaf cyfyngiadol bosibl. Fodd bynnag, mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn caniatáu i berson sy'n ddiffygiol mewn galluedd meddyliol gael ei amddifadu o'i ryddid os:

- yw er budd pennaf i'r person i'w amddiffyn rhag niwed;
- mae'n ymateb cymesur i'r tebygolrwydd o niwed a difrifoldeb y niwed; a
- nid oes dewis arall llai cyfyngiadol.

Pryd bynnag y bydd cynllun gofal person yn cyfyngu ar ei ryddid, bydd Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn berthnasol. Ystyriwyd ystyr amddifadu o ryddid gan y Goruchaf Lys yn ***P v Cheshire West and Chester Council & Another [2014] UKSK 19***. Nododd y Goruchaf Lys bod amddifadu o ryddid yn gyfystyr â thri pheth:

- bod y person yn gaeth i fan cyfyng penodol am gyfnod o amser nad yw'n ddiofal;
- nad yw'r person yn gallu (neu nad yw'n) cydsynio; a
- bod y Wladwriaeth (fel arfer bwrdd iechyd lleol neu awdurdod lleol) yn gyfrifol am yr amddifadu o ryddid.

Wrth asesu a yw person yn rhywun y gellir ei ddsbarthu fel person sy'n cael ei amddifadu o ryddid, aeth y Llys ymlaen i nodi nad oes rhaid i'r person fod yn rhywun sy'n cael gofal mewn ysbyty neu leoliad preswyl arall a bod person sy'n cael gofal a chefnogaeth yn y gymuned, sy'n gyfystyr â goruchwyliaeth barhaus nad ydynt yn rhydd i'w gadael, hefyd yn gallu bod yn rhywun sy'n cael ei amddifadu o'i ryddid.

Os bydd person yn cael ei amddifadu o'i ryddid, mae angen awdurdodi hynny, neu bydd yr amddifadu yn anghyfreithlon. Os yw'r amddifadu o ryddid yn dod trwy orfod preswyl mewn ysbyty neu gartref gofal, yna mae'n rhaid ceisio am awdurdod gan y bwrdd iechyd lleol neu'r awdurdod lleol fel y mae'n gymwys. Os yw'r person yn cael gofal yn ei gartref ei hun ond bod trefn y gofal yn dal yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, mae'n rhaid cael awdurdodiad gan Y Llys Gwarchod. Felly, mae effaith penderfyniad y 'Cheshire West' wedi bod yn sylweddol, gan ei fod wedi ei gwneud yn ofynnol bod pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol yn adolygu'r pecynnau gofal ar gyfer unrhyw berson sydd â diffyg galluedd er mwyn asesu a yw'r pecyn yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Os gellir gweld bod amddifadu o ryddid yn debygol, mae'n rhaid ymorol am awdurdod.

Yn ogystal ag asesu am alluedd meddyliol, mae'n ofynnol cwblhau **asesiad budd pennaf** ar gyfer y broses awdurdodi er mwyn ystyried a yw'r amddifadiad o ryddid yn cwrdd â'r meini prawf dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Eto, dylid sicrhau bod Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol ar gael i gefnogi'r person a'i deulu/ffrindiau.

Os yw awdurdodi amddifadu o ryddid wedi cael ei roi, yna bydd **cynrychiolydd perthnasol y person** yn cael ei benodi i gadw mewn cysylltiad â'r person a sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud er budd pennaf y person. Bydd cynrychiolydd perthnasol y person fel arfer yn berthynas neu'n ffrind ond gall fod yn weithiwr proffesiynol os nad oes perthynas neu ffrind ar gael.

Dylai unrhyw awdurdod fod ar gyfer y cyfnod byrraf bosibl a dylai ystyried pa un a yw'n debygol y bydd unrhyw newid yng ngalluedd meddyliol y person yn y dyfodol. Os yw'n ymddangos bod angen cyfnod pellach o amddifadu, gellir gwneud cais am awdurdodi pellach. Yn yr un modd, os cred yr awdurdod awdurdodi, neu gynrychiolydd perthnasol y person, nad oes angen yr amddifadu bellach, gellir gwneud cais am ddod â'r awdurdodi i ben. (Mae gan wefan GIG (Cymru) nifer o Ffurflenni a Llythyrau safonol sy'n ymwneud â cheisiadau awdurdodi.)

	<u>Gwybodaeth ac Adnoddau Allweddol</u> <u>Galluedd Meddyliol</u>
<p>Mae'r ddeddf sy'n ymwneud â galluedd meddyliol ac amddifadu o ryddid yn gymhleth ond mae nifer o adnoddau allanol defnyddiol ar gael:</p> <ul style="list-style-type: none"> • <u>Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid</u> – Canllawiau a orchmynnwyd gan yr Arglwydd Ganghellor a'i gyhoeddi ar y cyd gan yr Adran Iechyd a Llywodraeth Cymru. • <u>Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid</u> – taflen wybodaeth a gyhoeddwyd gan Age Cymru. • <u>Amddifadu o Ryddid: canllaw ymarferol</u> – adnodd ar-lein ar gyfer asesu a yw person yn cael ei amddifadu o'i ryddid a gyhoeddir gan Gymdeithas y Gyfraith. 	

Pan fydd person yn dioddef gan 'anhwylder meddyliol' ac mae arno angen cael ei gadw yn yr ysbyty un ai i gael ei asesu neu ar gyfer cael triniaeth, yna gellir gwneud cais am gael 'ei gadw mewn ysbyty meddwl' dan y **Ddeddf Iechyd Meddwl 1983**. Mae 'cadw mewn ysbyty meddwl' yn gam difrifol a gall olygu prawf o flaen Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl. Os ydych chi'n cefnogi rhywun y mae 'ei gadw mewn ysbyty meddwl' yn cael ei ystyried, yna fe ddylech gael cyngor arbenigol a dylid penodi Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol. Mae Advocacy Support Cymru yn darparu gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol ar gyfer y pum ardal bwrdd iechyd yng Nghymru a bydd cyfleuster Dod o Hyd i Gyfreithiwr yn eich helpu i ddod o hyd i gyfreithiwr sy'n arbenigo mewn cyfraith iechyd meddwl.

Os ydych chi'n cefnogi rhywun sydd wedi'i ryddhau ar ôl cael ei gadw mewn ysbyty meddwl, yna mae rh117 o **Ddeddf Iechyd Meddwl 1983** yn gosod awdurdodau lleol a byrddau iechyd dan ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau gofal pellach. Mae'n rhaid i wasanaethau gofal pellach gael eu darparu'n rhad ac am ddim a gallant gynnwys gwasanaethau gofal preswyl a gwasanaethau cartref.

	<u>Adnoddau a Gwybodaeth Allweddol</u> <u>Iechyd Meddwl</u>
<p>Fel gyda galluedd meddyliol, mae'r gyfraith sy'n ymwneud â iechyd meddwl a'r arfer o 'gadw mewn ysbyty meddwl' yn gymhleth ond mae nifer o adnoddau allanol defnyddiol ar gael:</p> <ul style="list-style-type: none"> • <u>Deddf Iechyd Meddwl 1983 a gwarchodaeth</u> – taflen wybodaeth a wnaed gan Gymdeithas Alzheimer. • <u>'Getting it right for people with learning disabilities</u> – 	

canllawiau a wnaed gan GIG Lloegr i gefnogi teuluoedd pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, ble mae angen cyfnod o driniaeth ysbyty a gofal pellach. *[Er bod y canllawiau wedi'u gwneud gan GIG Lloegr, ac felly y mae rhai o'r ddarpariaethau statudol yn wahanol i'r rhai sy'n berthnasol yng Nghymru, y mae'n gynhwysfawr iawn ac mae'r egwyddorion cyffredinol yr ymdrinnir â hwy yn berthnasol yng Nghymru.]*

2.6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a byrddau iechyd

Tra bo'r DGCLI 2014 yn canolbwyntio ar ddarpariaeth gofal cymdeithasol, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar fyrddau iechyd i gydweithio ag awdurdodau lleol, yn enwedig mewn perthynas â chynhyrchu asesiadau'r boblogaeth i hysbysu'r ddarpariaeth am wasanaethau gofal a chefnogaeth. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn annog byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth.

2.7 Crynodeb

Mae'r Tabl isod yn crynhoi'r pwyntiau allweddol sy'n ymwneud â dyletswyddau a rhwymedigaethau byrddau iechyd lleol yng Nghymru:

<u>Rhan 2 – Dyletswyddau a rhwymedigaethau'r byrddau iechyd lleol</u> Crynodeb
<ul style="list-style-type: none">❖ Dan ran 1 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd cyffredinol i sicrhau bod gan Gymru wasanaeth iechyd cynhwysfawr, sy'n sicrhau gwellhad yn iechyd corfforol a meddyliol pobl Cymru.❖ Yn gyffredinol, nid oes angen proses asesu ffurfiol i gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau'n cael eu darparu gan Feddyg Teulu neu pan fydd rhywun yn cael ei dderbyn i'r ysbyty.❖ Efallai bod person y mae gofal iechyd yn brif angen iddo â'r hawl i gael pecyn gofal iechyd (GIP) y GIG. Gellir trefnu hyn i gefnogi person sy'n byw mewn amrediad o leoliadau, gan gynnwys ysbyty, hosbis, cartref gofal neu ei drigfan ei hun. Mae'n gyfrifoldeb ar y bwrdd iechyd lleol i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod asesiad GIP yn cael ei wneud ym mhob achos ble mae ei angen.

- ❖ Wrth asesu person ag anabledd dysgu, noda Fframwaith y GIP Cenedlaethol bod yn rhaid i'r asesiad gydymffurfio â Datganiad ar Bolisi ac Arfer ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu.
- ❖ Bydd unrhyw becyn GIP yn rhwym wrth adolygiad amlddisgyblaethol o fewn tri mis i ystyried ai iechyd sy'n dal i fod yn brif angen y person ac a yw'r gwasanaethau a ddarperir yn diwallu'r angen hwnnw. Gall yr adolygiad wneud newidiadau i'r pecyn GIP ac os nad yw iechyd yn brif angen y person bellach, gellir diddymu'r gwasanaethau.
- ❖ Pan nad yw person yn gymwys i gael pecyn GIP, ond sy'n dal angen peth gofal nyrsio, fel arfer bydd ganddo'r hawl i ofal nyrsio a ariennir gan y GIG. Fel arfer bydd person yn gymwys i gael gofal nyrsio a ariennir os yw'n byw mewn cartref nyrsio ac sydd, yn ôl ei asesiad, angen gwasanaethau nyrs gofrestredig. Fel gyda gwasanaethau GIP, bydd yr hawl i gael gofal nyrsio a ariennir gan y GIG yn cael ei adolygu ar ôl tri mis ac ar ôl hynny yn flynyddol.
- ❖ Os yw'n ymddangos nad yw'r person sy'n cael ei asesu yn gallu deall proses yr asesu na'r broses o wneud penderfyniad, yna efallai y bydd angen gwneud asesiad galluedd meddyliol. Dylid ymgymryd ag unrhyw asesiad yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Chôd Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Dylid cymryd pob cam ymarferol i gefnogi'r person i ddeall y penderfyniadau sydd i'w gwneud. Gall hyn gynnwys gwahanol ddulliau o gyfathrebu a darparu'r wybodaeth mewn diwyg 'hawdd ei deall'. Os ymgymerir ag asesiad galluedd meddyliol ac nad oes gan y person unrhyw un i'w gynrychioli, yna, fel arfer, bydd Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol yn cael ei benodi. Pryd bynnag y bydd cynllun gofal person yn cyfyngu ar ei ryddid, bydd Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn berthnasol.
- ❖ Os bydd person ag 'anhwylder meddwl' ac y bydd angen cael ei gadw yn yr ysbyty i gael ei asesu neu i gael triniaeth, yna gellir gwneud cais am gael ei 'gadw mewn ysbyty meddwl' dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Os bydd ei 'gadw mewn ysbyty meddwl yn cael ei ystyried, yna dylid penodi Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol i gefnogi'r person.

RHAN 3 – HERIO PENDERFYNIADAU

Oherwydd cymhlethdod y gyfraith sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol a gofal iechyd a'r ffaith y gall gwahanol asiantaethau fod ynghlwm wrth hyn, gall anghytundebau godi o ran pa wasanaethau y dylid eu darparu a sut y bydd gwasanaethau yn cael eu hariannu. Mae'r rhan hon yn crynhoi'r gwahanol ffyrdd y gall penderfyniadau gael eu herio.

Cyn herio unrhyw benderfyniad mae'n bwysig iawn bod y person sy'n herio'r penderfyniad yn casglu'r holl dystiolaeth berthnasol at ei gilydd. Yn enwedig, os bydd gwasanaethau wedi'u gwrthod, mae'n hanfodol gofyn i'r awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd lleol ysgrifennu'r rhesymau pam y gwnaed y gwrthodiad fel bo cofnod clir o'r penderfyniad sy'n cael ei herio. Er enghraifft, os bydd awdurdod lleol yn gwrthod diwallu angen cymwys oherwydd cyfyngiadau ariannol, byddai'n hanfodol cael y penderfyniad hwnnw i lawr ar bapur, gan y byddai'r sail resymegol ar gyfer y penderfyniad yn anghyfreithlon ac felly byddai cwyn yn sicr o lwyddo.

Mae'r wybodaeth yn y Rhan hon o'r arweinyfr yn cynnwys:

- 3.1 Dulliau Gweithredu Adolygiadau**
- 3.2 Dulliau Gweithredu Cwynion**
- 3.3 Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
- 3.4 Adolygiad Barnwrol**
- 3.5 Gwasanaethau eiriolaeth**
- 3.6 Uned 'pro bono' Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd**

3.1 Dulliau Gweithredu Adolygiadau

Os yw person yn anhapus ynghylch canlyniad asesiad o'u hanghenion am ofal a/neu gefnogaeth, buasai'n fuddiol ceisio datrys y mater yn anffurfiol trwy ei drafod â'r ymarferydd arweiniol penodedig sydd wedi gwneud yr asesiad, neu ei reolwr. Er enghraifft, os yw darn o wybodaeth allweddol wedi'i gamddeall yn ystod proses yr asesiad, gall fod yn bosibl cywiro hyn a newid canlyniad y penderfyniad. Os na ellir datrys y mater yn anffurfiol, yna bydd angen defnyddio [Dull Gweithredu Cwynion](#) yr awdurdod lleol.

Os bydd person yn anhapus ynghylch canlyniad asesiad gofal iechyd parhaus y GIG, y mae eto yn ddoeth i godi'r mater â'r cydgysylltydd gofal er mwyn gweld a oes modd ei ddatrys yn anffurfiol trwy **ddull gweithredu adolygiadau lleol**. Os na ellir datrys yr anghytundeb trwy ddull gweithredu adolygiadau lleol, yna mae hawl gan y person i ofyn a gaiff ei achos ei gyfeirio at **banel adolygu annibynnol**. Os na fydd yr anghytundeb yn cael ei ddatrys trwy'r panel adolygu yna fe all fod yn bosibl defnyddio [Dulliau Gweithredu Cwynion](#) y bwrdd iechyd lleol, er efallai na fydd y dull

gweithredu cwynion yn gallu ychwanegu unrhyw beth at yr adolygiad lleol a'r adolygiad annibynnol. Os na fydd y dull gweithredu cwynion yn gymwys, yna gall fod yn bosibl o hyd gyfeirio at [Ombwdsman y Gwasanaethau Cyhoeddus](#).

3.2 Dulliau Gweithredu Cwynion

Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol gael dull gweithredu cwynion a dylai manylion ynghylch sut i gael gafael ar y dull gweithredu fod ar gael trwy wefan y mudiad. Fel dewis arall, gallech gysylltu â'r mudiad yn uniongyrchol a gofyn am gopi o'r dull gweithredu. Os yw'r gŵyn yn ymwneud â gwasanaeth gan fudiad arall (e.e. darparwr gofal ar ran awdurdod lleol), mae'n debygol y bydd gofyn i'r person sy'n gwneud y gŵyn gydsynio i roi manylion y gŵyn i'r mudiad arall fel rhan o'r broses ymchwilio.

Ers y 1^{af} Awst 2014, os yw'r gŵyn ynghylch gofal cymdeithasol a ddarperir gan awdurdod lleol, rhaid dilyn [Canllawiau ar ddelio â chwynion a sylwadau mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol](#). Mae'r dull gweithredu hwn yn rhannu unrhyw gŵyn yn ddau gam:

Cam 1 (datrysiad lleol) – bydd angen i'r awdurdod lleol drefnu trafodaeth gyda'r achwynydd o fewn deng niwrnod er mwyn medru datrys y mater mor fuan ac mor effeithiol â phosibl.

Cam 2 (ymchwiliad ffurfiol) – os nad yw'r achwynydd yn hapus gyda chanlyniad Cam 1, gallant ofyn am gael penodi ymchwilydd annibynnol, fydd yn paratoi adroddiad a gwneud unrhyw argymhellion priodol. Bydd yr awdurdod lleol wedyn yn gwneud ymateb ffurfiol i'r gŵyn, gan ystyried canlyniad yr ymchwiliad annibynnol a dylai'r ymateb hwn gael ei ddosbarthu o fewn pum niwrnod ar hugain o gychwyn proses Cam 2.

Os yw'r gŵyn ynghylch darpariaeth gofal preswyl neu ofal yn y cartref, gall hefyd fod yn briodol cysylltu ag [Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru \(AGGCC\)](#). Mae'r AGGCC yn gyfrifol am ymchwilio i safonau gofal cymdeithasol yng Nghymru, eu rheoli a'u cynnal. Felly, os yw'r cartref gofal neu'r asiantaeth sy'n darparu gofal yn y cartref, wedi'i gofrestru â'r AGGCC, efallai y buasai'n briodol gwneud yr AGGCC yn ymwybodol o'r gŵyn.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gwneud canllawiau sy'n ymwneud â'r ffordd y dylai'r GIG yng Nghymru ddelio â'r gŵyn. Enw'r canllawiau yw [Gweithio i Wella](#) ac mae'n rhoi'r camau y byddir yn eu dilyn pan fydd cwyn yn cael ei gwneud. Noda'r canllawiau y dylai ymateb terfynol gael ei ddarparu o fewn deg ar hugain o ddyddiau gwaith.

Weithiau gall gofyn i gynghorydd lleol, Aelod o'r Cynulliad neu aelod o'r Senedd godi neu gefnogi cwyn ddodi pwysau effeithiol ar bethau. Yn ogystal, gall gofyn i'r cyfryngau fod yn gyfrannog ynddo fod yn effeithiol hefyd. Fodd bynnag, bydd y cyfryngau yn amlwg yn chwilio am stori a bydd cael y cyfryngau ynghlwm wrth y gŵyn yn debygol o feddwl y bydd manylion personol am fywyd yr achwynydd yn cael ei adrodd yn y wasg. Mae gwybodaeth gyffredinol ynghylch y ffordd o wneud cwyn am wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ar gael ar wefan [Cwynion Cymru](#).

3.3 Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae [Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru](#) yn berson annibynnol sydd â grym cyfreithiol i adolygu penderfyniadau a wnaed gan gyrff cyhoeddus a darparwyr gofal annibynnol yng Nghymru.

Cyn y gallwch ofyn i'r Ombwdsman ymchwilio, bydd arnoch fel arfer angen bod wedi gwneud cwyn ffurfiol i'r awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol perthnasol yn barod. Os yw'r Ombwdsman yn penderfynu bod y gwasanaeth a ddarperir wedi bod yn annigonol, fe fydd fel arfer yn rhoi adroddiad ac argymhellion. Er nad yw'r argymhellion yn orfodol, bydd yr awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd lleol fel arfer yn cydsynio ag unrhyw argymhellion a wnaed.

Mae'r Ombwdsman yn gwneud cyfres o [Daflenni Gwybodaeth](#), sy'n egluro'r hyn y gall yr Ombwdsman ei wneud neu beidio â'i wneud mewn perthynas â'r materion y mae'n aml yn derbyn cwynion yn eu cylch, gan gynnwys darparu gofal. Mae gan y wefan [Goflyfr](#) hefyd, sy'n crynhoi achosion y mae'r Ombwdsman wedi ymchwilio iddynt ac yn egluro'r canlyniadau.

3.4 Adolygiad Barnwrol

Proses gyfreithiol yw Adolygiad Barnwrol sy'n caniatáu i lys adolygu penderfyniad gan gorff cyhoeddus. Os yw'r llys yn penderfynu bod y ffordd y gwnaed y penderfyniad yn anghywir mewn rhyw ffordd (e.e. oherwydd bod gwybodaeth bwysig heb ei ystyried), gall y llys orchymyn bod y corff cyhoeddus yn ymgymryd â'r broses o wneud y penderfyniad eto. Fodd bynnag, ar y broses o wneud y penderfyniad yn unig y mae'r adolygiad barnwrol yn edrych ac nid ar rinweddau'r penderfyniad. Golyga hyn, hyd yn oed pan fydd cais am adolygiad barnwrol yn llwyddiannus, ni all y llys roi ei benderfyniad ei hun yn lle penderfyniad yr awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd lleol a'r mwyaf y gall y llys ei wneud fel arfer yw mynnu bod y penderfyniad yn cael ei wneud eto gan ddefnyddio'r broses gywir. Wrth gwrs, gallai hyn arwain at gael penderfyniad gwahanol wedi'i wneud (e.e. os yw gwybodaeth newydd ar gael, nas ystyriwyd yn flaenorol).

Mae adolygiad barnwrol yn broses gymhleth ac mae'n rhaid ei ddechrau o fewn tri mis i'r penderfyniad a heriwyd. Os yw'n ymddangos bod adolygiad barnwrol yn angenrheidiol, yna fe ddylech ystyried cysylltu â chyfreithiwr i weld a oes achos i gael adolygiad barnwrol ac a oes cymorth cyfreithiol ar gael i dalu'r costau fuasai ynghlwm wrth adolygiad barnwrol. Mae gan y Gymdeithas Gyfreithiol gyfleuster Chwilio am Gyfreithiwr ar-lein, sy'n eich galluogi i chwilio am gyfreithiwr sy'n arbenigo mewn achosion adolygiad barnwrol yn yr ardal leol. Yn ogystal, mae gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wiriwr cymhwyster ar-lein, sy'n gofyn cyfres o gwestiynau ynghylch y math o anghytundeb ac amgylchiadau ariannol y person ac wedyn mae'n darparu arwydd sy'n dangos a yw'n bosibl bod cymorth cyfreithiol ar gael.

3.5 Gwasanaethau eiriolaeth

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn mynnu bod yr awdurdodau lleol yn gwneud amrediad o wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth a gwasanaethau eiriolaeth ar gael i bobl sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth. Felly, os oes arnoch chi angen gwneud cwyn ynghylch darpariaeth y gwasanaethau gofal a chefnogaeth, fe ddylech fedru cael mynediad at gefnogaeth eiriolaeth i fod o gymorth i chi. (Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch cael mynediad at wasanaethau eiriolaeth yn yr arweinyfr Eiriolaeth a Mynediad at Wybodaeth, Cyngor a Chymorth sydd ar wahân i'r arweinyfr hwn.)

Yng Nghymru, mae'n ofynnol bod cynghorau iechyd y gymuned leol yn darparu gwasanaethau eirioli annibynnol i gefnogi oedolion sy'n gwneud cwyn ynghylch y gwasanaeth y maent wedi'i gael gan y GIG. Gellir dod o hyd i wybodaeth ynghylch lleoliad y gwasanaeth eirioli lleol a sut i gysylltu ag eiriolwr ar wefan Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion.

3.6 Uned 'pro bono' Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd

Gweithreda Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd raglen o gynlluniau addysg gyfreithiol glinigol, ble mae ei fyfyrwyr yn cynnig cyngor a chymorth 'pro bono'. Mae cynllun Y Gyfraith a Gofal Iechyd, sy'n cael ei gynnig ar y cyd â Chyfreithwyr Hugh James, yn arbenigo mewn anghytundebau sy'n ymwneud â gofal iechyd parhaus y GIG.

ADNODDAU YCHWANEGOL

Mae'r gwefannau canlynol yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol:

Mudiad	Gwefan
Age Cymru (Mae'n gwneud cyfres o daflenni gwybodaeth 'cartref a gofal', sy'n darparu arweiniad ynghylch cael mynediad at ofal cymdeithasol a iechyd)	www.ageuk.org.uk/cymru/
British and Irish Legal Information Institute (BAILII) (Mae'n rhoi mynediad am ddim at adroddiadau cyfreithiol)	www.bailii.org
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (Mae ganddi'r cyfrifoldeb am archwilio, rheoli a chynnal safonau gofal cymdeithasol yng Nghymru)	http://aggcc.org.uk/?lang=cy
Cerebra (Elusen sy'n cefnogi plant sydd ag anhwylderau niwrolegol a'u gofalwyr, sy'n cynhyrchu cyfres o arweinyfrau'n ymwneud â gofal cymdeithasol)	http://w3.cerebra.org.uk/help-and-information/
Comisiynydd Plant Cymru (Gwybodaeth yn ymwneud â'r modd y mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael ei weithredu yng Nghymru)	www.childcomwales.org.uk/unrc-childrens-rights/
Cyngor ar Bopeth (Cymru) (Mae'n gwneud amrediad o arweinyfrau gwybodaeth gyfreithiol, y gellir chwilio trwyddynt i ystyried y gwahaniaethau yn y gyfraith o ganlyniad i ddatganoli)	www.citizensadvice.org.uk/wales/
Cwynion Cymru (Gwasanaeth cyfeirio trwy gyfrwng ffôn neu wefan yn cynnig cyngor ynghylch sut i gwyno am wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru)	www.complaintswales.org.uk/en.apx.
Diverse Cymru (Yn darparu amrediad o wasanaethau sy'n hybu	www.diverseecymru.org.uk/index.php

cydraddoldeb a byw'n annibynnol, gan gynnwys gwasanaeth 'taliadau uniongyrchol')	
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (Gwybodaeth yn ymwneud â'r modd y mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yn cael ei weithredu yng Nghymru)	www.equalityhumanrights.com/en/our-human-rights-work/monitoring-and-promoting-un-treaties/un-convention-rights-persons-disabilities
Cymdeithas y Gyfraith (Bydd yn eich helpu i ddod o hyd i gyfreithiwr yn eich ardal)	www.lawsociety.org.uk
Cyfraith Cymru (Gwefan a noddir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth ar bob rhan o'r gyfraith a ddatblygir yng Nghymru)	http://law.gov.wales/?lang=cy
Luke Clements (Adnoddau sy'n gysylltiedig â chyfraith gofal cymdeithasol wedi'u hysgrifennu gan yr Athro Luke Clements)	www.lukeclements.co.uk/
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Gwybodaeth ynghylch Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn)	www.olderpeopleswales.com/wl/about/un-principles.aspx
Ombwdsman y Gwasanaethau Cyhoeddus (Yn ymchwilio i gwynion ynghylch cyrff cyhoeddus yng Nghymru)	www.ombwdsman-wales.org.uk/en.aspx

Am Ragor o Wybodaeth gallwch gysylltu â:

Mencap WISE ar 0808 8000 300 (Dydd Llun i Ddydd Gwener, 9am-5pm)

Neu e-bostio information.wales@mencap.org.uk

Diolchiadau:

Y myfyrwyr sydd wedi bod ynghlwm wrth lunio'r arweinyfr hwn yw:

Fersiwn 1 (Awst 2015) – Grace Adams, Denise Chew, Richard Watkins ac Elerie Williams.

Fersiwn 2 (Mawrth 2017) – Sophie Chester-Glyn, Lycia Goh, Laura Naivar, Jack Rogers ac Alice Williams.